UK Government

Scottish Government
Riaghaltas na h-Alba
gov.scot

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Department of Agriculture, Environment and Rural Affairs
An Roinn Talmhaíochta, Comhshaoil agus Gnóthaí Tuaithe
Depairtment o' Fairmin, Environment an' Kintra Matthers
www.daera-ni.gov.uk

# Ehangu Cwmpas Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU: Gwastraff

## Ymgynghoriad ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban ac Adran Amaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon

Dyddiad cau: 2 Awst 2024 (ymestyn o 18 Gorffennaf)

Mai 2024

# Cynnwys


Gwybodaeth gyffredinol 3
Pam ein bod yn ymgynghori 3
Manylion yr ymgynghoriad 4
Sut i ymateb 5
Cyfrinachedd a diogelu data 5
Sicrhau ansawdd 6
Rhagarweiniad 7
Ehangu ETS y DU i gynnwys y sector gwastraff 9
Cwmpas y cynllun 10
Ehangder 10
Trothwy ar gyfer cynnwys, Statws Ysbyty ac Allyrrwr Bach a Statws Allyrrwr Bach Iawn 11
Eithriadau 12
Addasu’r cap ar gyfer cyfleusterau llosgi gwastraff 13
Dull polisi cyffredinol ar gyfer addasu’r cap ar gyfer sectorau newydd 14
Dull arfaethedig o addasu’r cap ar gyfer cyfleusterau llosgi gwastraff 15
Cymryd rhan yn y cynllun 17
Y gyfundrefn reoleiddio a gofynion ar weithredwyr 17
Cyfnod MRV yn unig 18
Gofynion monitro ac adrodd 20
Canllawiau 25
Effaith y cynllun a lleihau risgiau niweidiol 26
Arallgyfeirio gwastraff at dirlenwi ac allforio 26
Llwybrau datgarboneiddio 30
Dyrannu pasio costau ymlaen yn gywir 34
Ystyriaethau cydraddoldeb 35
ETS y DU a rhwydweithiau gwres – galwad am dystiolaeth 37
Cymhellion ar gyfer rhwydweithiau gwres 37
Cwestiynau’r Ymgynghoriad 39
Y camau nesaf 44

# Gwybodaeth gyffredinol

## Pam ein bod yn ymgynghori

Mae Awdurdod ETS y DU yn chwilio am fewnbwn ar gynigion i ehangu ETS y DU i gynnwys y sector gwastraff.

Rydym eisoes wedi cyhoeddi ein bwriad i ehangu cwmpas ETS y DU i gynnwys cyfleusterau llosgi gwastraff. Mae'r ymgynghoriad yn holi barn am ein cynigion i oleuo manylion gweithrediad hynny. Yn benodol mae'n cynnig opsiynau a / neu'n holi barn am:

- Cwmpas y cynllun, gan gynnwys pa weithgareddau sydd wedi eu cynnwys, trothwyon ar gyfer cynnwys, ac eithriadau
- Cyfranogi yn y cynllun, gan gynnwys gofynion ar gyfer gweithredwyr, monitro, adrodd a dilysu, a chanllawiau
- Effeithiau'r cynllun a risgiau, gan gynnwys arallgyfeirio gwastraff i dirlenwi ac allforio gwastraff, llwybrau datgarboneiddio i gwsmeriaid, pasio'r gost ymlaen at gwsmeriaid, ac ystyriaethau cydraddoldeb
- Sut i addasu cap ETS y DU ar gyfer gwastraff, a
- Sut y gall ETS y DU fod yn gymhelliad i fuddsoddi mewn rhwydweithiau gwres

# Manylion yr ymgynghoriad

**Cyhoeddwyd ar:** 23 Mai 2024

**Ymatebion erbyn:** 2 Awst 2024 (ymestyn o 18 Gorffennaf)

**Ymholiadau at:**

Emissions Trading,
Department for Energy Security and Net Zero 3rd Floor
3-8 Whitehall Place
London
SW1A 2EG

E-bost: ukets.consultationresponses@energysecurity.gov.uk

**Cyfeirnod yr Ymgynghoriad:** Ehangu Cwmpas Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU: Gwastraff

**Cynulleidfaoedd:**

Disgwylir i'r ymgynghoriad hwn fod fwyaf o ddiddordeb i gwmnïau ac awdurdodau rheoli gwastraff, cyrff masnach, grwpiau gwasanaethau amgylcheddol, awdurdodau lleol a chwsmeriaid eraill i gyfleusterau llosgi gwastraff, a rhai gyda diddordeb mewn rhwydweithiau gwres.

Rydym hefyd yn croesawu barn unrhyw unigolyn neu sefydliad sydd â diddordeb, union neu anuniongyrchol, mewn ehangu ETS y DU a / neu addasu cap y cynllun.

Hoffem wybod eich barn am ein cynigion i ehangu cwmpas ETS y DU. Hoffem wybod a ydych yn meddwl y bydd y newidiadau polisi sydd mewn golwg yn ymarferol ac yn cyflawni ein hamcanion.

**Ehangder tiriogaethol:**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â chynigion i ddatblygu ETS y DU sy'n weithredol ar draws Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Ymgynghoriad ar y cyd yw hwn, wedi'i gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban ac Adran Amaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon.

# Sut i ymateb

Dylid nodi a ddylid ymateb mewn fformat penodol a ffafrir, i ble y dylid e-bostio'r ymatebion electronig, i ba gyfeiriad i anfon ymatebion copi caled, a ddylid defnyddio gwahanol gyfeiriadau ar gyfer ymatebion y gwahanol lywodraethau datganoledig, ac yn y blaen.

**Dylid ymateb ar-lein yn:** https://energygovuk.citizenspace.com/energy-markets/expanding-uk-ets-energy-from-waste

neu

**Drwy e-bost at:** ukets.consultationresponses@energysecurity.gov.uk

**Drwy ysgrifennu at:**

Emissions Trading,

Department for Energy Security and Net Zero 3rd Floor

3-8 Whitehall Place

London

SW1A 2EG

Wrth ymateb, dylech ddweud a ydych yn ymateb fel unigolyn neu'n rhoi barn sefydliad.

Bydd eich ymateb yn fwyaf defnyddiol os atebwch y cwestiynau'n uniongyrchol, er bod croeso i chi hefyd gyflwyno sylwadau a thystiolaeth bellach.

# Cyfrinachedd a diogelu data

Gallai'r wybodaeth a roddwch mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei datgelu'n unol â deddfwriaeth y DU (Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu rhannu ar draws Awdurdod ETS y DU ac efallai ag adrannau eraill y llywodraeth fel Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.

Os ydych eisiau i'r wybodaeth a roddwch i ni gael ei thrin yn gyfrinachol, cofiwch ddweud hynny ond cofiwch na allwn warantu cyfrinachedd bob tro. Ni fyddwn yn ystyried ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG fel cais am gyfrinachedd.

Byddwn yn prosesu eich data personol yn unol â'r holl gyfreithiau perthnasol ar ddiogelu data. Wele ein polisi preifatrwydd.

[Dylid ychwanegu unrhyw elfennau sy'n benodol i'r ymgynghoriad hwn fel cyfnodau cadw hirach (dros 3 blynedd) neu brosesu'r ymatebion gan drydydd partïon.]

Byddwn yn crynhoi'r holl ymatebion ac yn cyhoeddi'r crynodeb hwn ar GOV.UK. Bydd y crynodeb yn cynnwys rhestr o'r enwau neu sefydliadau wnaeth ymateb, ond nid enwau, cyfeiriadau neu fanylion cyswllt personol pobl.

# Sicrhau ansawdd

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i gynnal yn unol ag egwyddorion ymgynghori'r llywodraeth.

Os oes gennych unrhyw gwynion am sut y cafodd yr ymgynghoriad hwn ei gynnal, dylech e-bostio: bru@energysecurity.gov.uk.

# Rhagarweiniad

Daeth Cynllun Masnachu Allyriadau (ETS) y DU i rym ar 1af Ionawr 2021. Mae'r cynllun yn rhan allweddol o sut y byddwn yn mynd i'r afael â newid hinsawdd gan roi trothwy ar allyriadau o'r sectorau perthnasol a sicrhau bod y pris priodol yn cael ei dalu amdanynt. Mae'r cynllun yn cael ei redeg ar y cyd gan Awdurdod ETS y DU (neu 'yr Awdurdod') ac yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban ac Adran Amaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon.

Ym mis Mawrth 2022, fe wnaeth yr Awdurdod ymgynghori ar ystod eang o newidiadau i'r Cynllun er mwyn sicrhau y gall chwarae rôl allweddol mewn cyrraedd targedau sero-net a chefnogi busnesau i bontio at newid. Roedd hyn yn cynnwys galwad am dystiolaeth ar ehangu cwmpas ETS y DU i gynnwys llosgi gwastraff ac ynni o wastraff (EfW).

Yn Ymateb yr Awdurdod ym mis Gorffennaf 2023, fe wnaeth yr Awdurdod gadarnhau ei fwriad i gynnwys llosgi gwastraff ac ynni o wastraff yn y cynllun o 2028 ymlaen, gyda chyfnod pontio a chyflwyno graddol o 2 flynedd rhwng 2026-2028. Dros y cyfnod hwn, bydd allyriadau ond yn cael eu monitro, adrodd a'u dilysu ac ni fydd angen prynu nac ildio lwfansau ETS y DU tan 2028.

Mae hyn yn dilyn ymrwymiad Llywodraeth y DU yn ei Strategaeth Sero-Net i ystyried ehangu ETS y DU i gynnwys y ddau draean o allyriadau allan o gwmpas. Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i ystyried ehangu ETS y DU ymhellach yn y llwybr hirdymor ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2023[1].

Mae'r egwyddorion amgylcheddol, a amlinellir yn Neddf Amgylchedd 2021, wedi eu gwreiddio yn rhesymeg polisi Cynllun Masnachu Allyriadau (ETS) y DU. ETS y DU yw ein prif ddull o brisio'r 'allanoldeb carbon' a achosir gan allyriadau nwyon tŷ gwydr, yn unol â'r egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu. Bydd ehangu'r cynllun i sectorau a thechnolegau newydd yn cynyddu ehangder a dosbarthiad y cynllun ac yn cynnwys mwy o allyriadau a ddylai arwain at ganlyniadau datgarboneiddio da i'r sector. Ar gyfer llosgi gwastraff ac EfW, rydym yn rhagweld y bydd ehangu ETS y DU yn cymell gweithredwyr i ddatblygu a defnyddio technoleg ddatgarboneiddio neu arferion i leihau allyriadau. Bydd hefyd yn cyd-fynd â'r polisi gwastraff presennol. Ar draws y DU mae cyfres o fesurau treth amgylcheddol sy'n gweithio gyda pholisïau anghyllidol i gefnogi amcanion amgylcheddol uchelgeisiol y pedair gwlad.

Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw rhoi mwy o fanylion ac ymgynghori ar weithrediad cynnwys llosgi gwastraff ac EfW yn y cynllun o 2026 ymlaen dros y cyfnod Monitro, Adrodd a Dilysu (MRV) yn unig, gyda gofynion ildio llawn yn dod i rym o 2028 ymlaen. Er mwyn hwylustod, bydd yr ymgynghoriad hwn yn cyfeirio at "gyfleusterau llosgi gwastraff".

Mae'r ymgynghoriad hefyd yn cynnwys Galwad am Dystiolaeth ar gymhellion ar gyfer rhwydweithiau gwres a drafodir yn yr adran 'ETS y DU a rhwydweithiau gwres – galwad am dystiolaeth'.

[1] Y llwybr hirdymor ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU. https://www.gov.uk/government/publications/uk-emissions-trading-scheme-long-term-pathway/the-long-term-pathway-for-the-uk-emissions-trading-scheme

Bydd angen i ymatebwyr ond ateb y cwestiynau sydd o ddiddordeb neu y mae ganddynt farn amdanynt. Nid yw'n ofynnol ac ni ddisgwylir iddynt ymateb i bob cwestiwn yn yr ymgynghoriad hwn. v

# Ehangu ETS y DU i gynnwys y sector gwastraff

Yn Ymateb yr Awdurdod i 'Datblygu ymgynghoriad ETS y DU'[2], a gyhoeddwyd yng Ngorffennaf 2023, roedd yr Awdurdod yn cadarnhau:

- Bod yr Awdurdod yn bwriadu ehangu cwmpas y cynllun i gynnwys allyriadau o gyfleusterau llosgi gwastraff yn ETS y DU. Mae'r Awdurdod yn bwriadu i'r ehangu fod yn weithredol o 2028 ymlaen.
- Rydym yn meddwl cynnwys cyfnod pontio o ddwy flynedd o'r 1 Ionawr 2026 tan 31 Rhagfyr 2027, pryd y bydd gosodiadau'n monitro, adrodd a dilysu eu hallyriadau ond ddim yn prynu ac ildio lwfansau ETS y DU.
- Byddwn yn addasu'r cap i ystyried y sectorau newydd fydd yn cael eu hychwanegu at ETS y DU mewn ffordd gyson â darparu sero-net, ein Cyllidebau Carbon a thargedau hinsawdd eraill, fel ein Cyfraniad a Bennir yn Genedlaethol (NAC).
- Nid ydym yn bwriadu eithrio gwastraff peryglus na chlinigol.
- Bwriadwn roi baich yr angen i gyflawni MRV o dan ETS y DU ar weithredwyr cyfleusterau llosgi gwastraff ac EfW.
- Bydd y trothwy presennol ar gyfer Allyrwyr Bach Iawn (llai na 2,500 tunnell o $CO_2e$) yn parhau, felly gallai cyfranogwyr yn y sector gwastraff o dan y trothwy hwn ymgeisio am y statws. Bydd y trothwy ar gyfer Ysbytai ac Allyrwyr Bach (llai na 25,000 tunnell o $CO_2e$) hefyd yn parhau ond nid y trothwy mewnbwn thermol.
- Bwriadwn gynnwys allyriadau $CO_2$ ffosil wrth ehangu i gynnwys llosgi gwastraff ac EfW.
- Byddwn yn trafod gwahanol ddulliau ar gyfer dosbarthu costau ETS y DU yn deg, er enghraifft drwy gysylltu i Gyfrifoldeb Estynedig y Cynhyrchydd am Becynnu (pEPR).

Mae'r Awdurdod hefyd wedi nodi y byddwn yn rhoi mwy o fanylion ac yn ymgynghori eto ar agweddau allweddol ar y cynllun, gan gynnwys manylion llawn ei weithredu, ystyried eto'r goblygiadau o beidio ag eithrio gwastraff peryglus a chlinigol, opsiynau i liniaru'r risg o arallgyfeirio gwastraff at dirlenwi neu allforio a phasio'r gost i gwsmeriaid. O gofio ein bod yn ehangu'r ETS presennol i'r sector, byddwn yn cadw egwyddorion a dyluniad polisi cyffredinol y cynllun (fel cap sy'n cyfyngu ar gyfanswm allyriadau'r cynllun cyfan a chynnal ocsiynau lwfansau rheolaidd), ond mae'r bennod nesaf yn mynd i fwy o fanylder ar sut y bwriadwn gymhwyso ETS y DU i'r sector gwastraff.

Rhoddir y rhestr lawn o dechnolegau y bwriadwn eu cynnwys yn y cynllun yn yr adran ehangder isod. Drwy ehangu'r cynllun i gynnwys cyfleusterau llosgi gwastraff, rydym yn rhoi cap ar gyfran fwy o allyriadau'r DU a byddwn yn cefnogi'r sector gwastraff i ddatgarboneiddio yn y ffordd fwyaf effeithlon yn unol â'r hierarchaeth wastraff. Mae'r hierarchaeth wastraff yn rhoi opsiynau rheoli gwastraff mewn trefn, yn ôl eu heffaith ar yr amgylchedd. Lle y mae gwastraff yn digwydd, dylem ei reoli drwy wneud y defnydd mwyaf effeithlon o adnoddau. Ar ôl atal gwastraff, rhoddir blaenoriaeth i baratoi gwastraff i gael ei ailddefnyddio, ailgylchu, ac yna i

[2] https://www.gov.uk/government/consultations/developing-the-uk-emissions-trading-scheme-uk-ets

adfer ynni (yn y drefn honno). Mae gwaredu, er enghraifft tirlenwi neu losgi heb adfer ynni, yn cael ei ystyried i fod yr opsiwn gwaethaf.

# Cwmpas y cynllun

## Ehangder

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod unrhyw ehangu o ETS y DU i'r sector rheoli gwastraff yn cadw cydbwysedd ar draws y gwahanol dechnolegau, gan hefyd gefnogi arloesi a buddsoddi mewn dulliau eraill mwy cynaliadwy.

O'r herwydd, y gweithgareddau rheoledig y bwriadwn eu cynnwys yn ETS y DU yn y sector hwn yw llosgi a hylosgi gwastraff, a dulliau eraill o adfer ynni o wastraff. Mae hyn yn cynnwys Uwch-Dechnoleg Thermol, Uwch-Dechnoleg Trosi Ynni (ACT)[3] ac uwch-driniaethau gwastraff cysylltiedig eraill. Mae hefyd yn cynnwys gweithgareddau troi gwastraff yn danwydd, gan gynnwys i gynhyrchu tanwydd awyrennau cynaliadwy (SAF). Ein safiad ar hyn yw cynnwys yr allyriadau uniongyrchol o gynhyrchu'r tanwyddau hyn, ond nid allyriadau cylch bywyd pellach o allbynnau'r tanwyddau hyn. Oherwydd bod rhai o'r technolegau hyn yn newid o hyd a heb eu profi'n eang eto, bydd yr Awdurdod yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i ddeall goblygiadau'r safiad hwn, ac yn ei adolygu lle bo angen. Dim ond allyriadau $CO_2$ ffosil fydd o fewn cwmpas y cynigion hyn.

Mae ailgylchu cemegol yn derm hollgwmpasol am nifer o brosesau gwahanol sy'n defnyddio prosesau cemegol i dorri deunyddiau'n ôl i lawr yn bolymerau sylfaenol. Mae hyn yn cynnwys prosesau fel pyrolysis a nwyeiddio sy'n defnyddio gwahanol ddulliau i dorri plastig i lawr yn nifer o ddarnau cyfansawdd. Gellir defnyddio rhai o'r rhain i gynhyrchu plastigau newydd a gellir llosgi eraill i gynhyrchu ynni, naill ai'n uniongyrchol neu ar ôl trosi i danwydd trafnidiaeth. Bwriadwn gynnwys dim ond cyfleusterau yn ETS y DU sy'n cyflawni gweithgareddau adfer ynni, neu sy'n cynhyrchu tanwydd ar gyfer llosgi. Ni fwriadwn gynnwys cyfleusterau sy'n torri gwastraff i lawr yn bolymerau a monomerau i'w defnyddio wedyn fel deunyddiau crai mewn cynhyrchion sy'n aros yn yr economi gylchol, sy'n rhyw fath o ailgylchu. Gwyddom y gall rhai cyfleusterau gynhyrchu tanwyddau a pholymerau a monomerau i'w defnyddio fel deunyddiau crai yn y blynyddoedd i ddod, a byddwn yn ystyried hyn ymhellach cyn penderfynu.

**Cwestiynau:**

1. **Ydych chi'n cytuno y dylai ein cynigion gynnwys cyfleusterau sy'n cyflawni'r gweithgareddau canlynol: llosgi a hylosgi gwastraff a dulliau eraill o adfer ynni o wastraff (gan gynnwys cynhyrchu tanwyddau)? (Y/N). Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.**

2. **A oes unrhyw dechnolegau na chyfeiriwyd atynt yn yr adran hon, ac na fyddai'r gweithgareddau a ddisgrifiwyd yn eu cynnwys, ac y teimlwch y dylai ein cynigion eu cynnwys? (Y/N). Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.**

3. **Ydych chi'n cytuno na ddylid cynnwys yn ein cynigion gyfleusterau sy'n cynhyrchu monomerau a pholymerau o wastraff y gellir eu defnyddio fel**

[3] Mae Uwch-Driniaethau Thermol ac Uwch-Dechnoleg Trosi'n ymdrin ag ystod o dechnolegau ond yn cyfeirio'n bennaf at osodiadau sy'n defnyddio pyrolysis a nwyeiddio i adfer ynni o wastraff gweddilliol.

**deunyddiau crai (ailgylchu anfecanyddol neu 'gemegol') ar gyfer deunyddiau a fyddai'n aros yn yr economi gylchol?**

4. **Os ydych, sut ddylem ni drin cyfleusterau sy'n cynhyrchu tanwydd a pholymerau a monomerau i'w defnyddio fel deunyddiau crai? (Y/N). Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.**

## Trothwy ar gyfer cynnwys, Statws Ysbyty ac Allyrrwr Bach a Statws Allyrrwr Bach Iawn

Ni fwriedir defnyddio'r trothwy mewnbwn thermol 20MW presennol wrth gynnwys unedau hylosgi yn ETS y DU oherwydd ni chredwn ei bod yn briodol oherwydd natur heterogenaidd y gwastraff crai (hynny yw, mae gwastraff gweddilliol yn cynnwys amrywiaeth o gydrannau, sy'n gallu amrywio o ran eu maint dros amser). Mae hyn yn golygu y bydd ETS y DU yn cynnwys yr holl gyfleusterau llosgi gwastraff a bydd rhai llai'n gymwys am statws Ysbyty neu Allyrrwr Bach (HSE) neu statws Allyrrwr Bach Iawn (USE) unwaith fydd y cyfleusterau llai hyn wedi cymryd rhan yn y cyfnod MRV yn unig. Nodwn fod hyn yn golygu na fyddai'r rheoliad presennol, yn eithrio cyfleusterau llosgi o dan y trothwy mewnbwn thermol 20MW ar yr un safle â gweithgaredd rheoledig arall rhag cael eu cynnwys yn ETS y DU, mwyach yn berthnasol[4].

Yn Ymateb yr Awdurdod, nodwn y bydd darpariaethau HSE a USE tebyg sydd ar gael ar hyn o bryd i gyfranogwyr cymwys ETS y DU hefyd ar gael i gyfleusterau llosgi gwastraff. Ar gyfer darpariaethau HSE, roeddem yn awgrymu y byddai trothwy cymhwyso o lai na 25,000 tunnell o $CO_2$e ffosil y flwyddyn yn cael ei ddefnyddio. Yn wahanol i'r cynllun presennol, ni fydd y trothwy mewnbwn thermol 35MW ar gyfer gweithgareddau hylosgi yn y sectorau presennol yn berthnasol, hefyd ar y sail y bydd mewnbwn thermol cyfleuster yn dibynnu ar gynnwys heterogenaidd y gwastraff y mae'n ei dderbyn. Nid yw hyn yn digwydd gyda gweithgareddau hylosgi presennol ETS y DU, sy'n defnyddio tanwydd gyda chyfansoddiad cyson yn eu gweithgareddau'n bennaf. Rydym hefyd wedi awgrymu defnyddio trothwy USE o lai na 2,500 tunnell o $CO_2$e ffosil.

Rhaid i gyfleusterau gyda statws HSE fonitro, adrodd a hunan-ddilysu eu hallyriadau a chwrdd â thargedau allyriadau'n hytrach na chwrdd â gofynion i brynu ac ildio lwfansau sy'n cyfateb i'w hallyriadau $CO_2$ ffosil. Os bydd gweithredwyr yn mynd dros eu targedau, rhaid talu dirwy gyfwerth â phris carbon cyfartalog y flwyddyn cynt am bob tunnell o CO2 ffosil sy'n cael ei allyrru dros eu targed. Bydd cyfleusterau gyda statws USE wedi eu heithrio o gyfranogi'n llawn yn ETS y DU ond yn gorfod monitro eu hallyriadau'n unol â chynllun monitro cymeradwy. Bydd yn rhaid talu dirwy os bydd eu hallyriadau'n mynd dros y trothwy USE ynghyd â dirwyon pellach os nad ydynt yn hysbysu eu rheoleiddiwr o fynd dros y trothwy. Bydd angen i allyrwyr HSE ac USE gyflwyno adroddiadau allyriadau wedi eu dilysu fel tystiolaeth o fod yn gymwys am y statws.

Deallwn fod yr arbedion maint sydd eu hangen i wneud cyfleusterau llosgi gwastraff yn hyfyw'n golygu bod llai o risg bod cyfleusterau llai'n cael eu datblygu i ennill statws HSE neu USE. Byddwn yn adolygu'r trothwyon yn gyson er mwyn eu haddasu i ymateb i'r risg yma os bydd yn digwydd.

[4] https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2020/9780348209761/schedule/2

**Cwestiynau:**

5. **A oes gennych bryderon am ein safiad i beidio â defnyddio'r trothwy mewnbwn thermol 20MW ar gyfer cyfranogi yn ETS y DU? (O/N) Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.**

6. **A oes angen ystyried trothwy arall i fod yn rhan o ETS y DU (ee capasiti prosesu gwastraff) neu a fydd bod yn gymwys am statws HSE a USE yn ddigon i ddiogelu cyfleusterau llai? Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.**

7. **Ydych chi'n cytuno bod y trothwyon arfaethedig ar gyfer statws HSE a USE yn addas ar gyfer cyfleusterau llosgi gwastraff? (Y/N). Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.**

8. **Ydych chi'n cytuno ei bod yn annhebygol y bydd cyfleusterau llai'n cael eu datblygu i fod yn gymwys am statws HSE neu USE? (Y/N). Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.**

9. **Os ydych yn anghytuno â'r trothwyon arfaethedig ar gyfer statws HSE a USE, pa drothwyon eraill fyddai'n addas?**

## Eithriadau

Ni fwriadwn eithrio llosgi unrhyw fath o wastraff, gan gynnwys gwastraff peryglus neu glinigol, o ETS y DU. Mae hyn yn cadw cydbwysedd rhwng gwahanol fathau o wastraff fydd yn lleihau'r risg o gymhellion croes (ee cam-ddisgrifio) i geisio osgoi gofynion o dan ETS y DU. Bydd hyn hefyd yn cynnwys gymaint o allyriadau â phosibl o dan ETS y DU.

Mae data ar allyriadau cyfleusterau sy'n weithredol ar hyn o bryd yn awgrymu y byddai'r holl gyfleusterau gwastraff clinigol arbenigol yn gymwys am statws HSE neu USE o dan y cynllun, a byddai tua thraean o holl losgwyr gwastraff peryglus y DU yn gymwys am statws HSE[5]. Nodwn hefyd fod allyriadau o losgi gwastraff peryglus yn cyfrif am 3% o holl allyriadau llosgi gwastraff y DU a bod allyriadau o losgi gwastraff clinigol yn cyfrif am 1% o holl allyriadau llosgi gwastraff y DU.

Rydym yn ystyried goblygiadau ein safiad o beidio ag eithrio gwastraff peryglus o ETS y DU. Rydym yn gwrando ar y pryderon am reoli gwastraff sy'n cynnwys Llygryddion Organig Parhaus (POP) a nodwn y bydd capasiti EfW y DU yn cynyddu erbyn 2028, gan helpu i reoli gwastraff sy'n cynnwys llygryddion POP. Deallwn hefyd fod technoleg newydd ar gyfer rheoli gwastraff sy'n cynnwys llygryddion POP, gan gynnwys ailgylchu 'cemegol' anfecanyddol, sy'n dangos bod gan y gwastraff hwn botensial hirdymor i gael ei reoli'n uwch i fyny'r hierarchaeth, ar yr amod bod llygryddion POP yn cael eu dinistrio drwy'r broses drin.

Mae'r Awdurdod wedi clywed gan rai rhanddeiliaid y gallai'r opsiynau datgarboneiddio a monitro allyriadau fydd ar gael i gyfleusterau confensiynol fod yn fwy heriol i losgwyr gwastraff peryglus eu mabwysiadu. Clywsom hefyd gan rai rhanddeiliaid a awgrymodd na fyddai eithrio gwastraff peryglus yn creu cymhellion croes i osgoi ETS y DU drwy, ee cam-ddisgrifio, oherwydd mae ffioedd tipio am losgi gwastraff peryglus yn sylweddol uwch nag i drin gwastraff

[5] Dadansoddiad gan yr Adran Sicrwydd Ynni a Sero-Net yn defnyddio data gan Defra a rheoleiddwyr pedair gwlad y DU o ragolygon allyriadau ffosil ar gyfer holl gyfleusterau llosgi gwastraff y DU.

nad yw'n beryglus. Rydym yn ymrwymedig i ystyried y materion hyn ymhellach ac yn croesawu unrhyw dystiolaeth fel rhan o ymateb i'r ymgynghoriad.

Rydym wedi ystyried goblygiadau ein safiad o gynnwys gwastraff clinigol yn ETS y DU. Mae hyn wedi cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid rheoli gwastraff gofal iechyd ar draws y DU, a fynegodd eu cefnogaeth i gynnwys llosgi gwastraff clinigol yn ETS y DU. Mae'r gefnogaeth hon yn seiliedig ar gysoni amcanion ETS y DU â'u targedau lleihau allyriadau gwastraff eu hunain.

O gofio ein bod yn disgwyl i losgwyr gwastraff clinigol fod yn gymwys o leiaf am statws HSE os nad statws USE, bydd targedau allyriadau'n cymell datgarboneiddio, ac o gwrdd â'r targedau ni fydd costau dirwyon yr ETS yn cael eu pasio ymlaen i'w cwsmeriaid. Clywsom fod rhanddeiliaid gwastraff gofal iechyd o blaid hyn a byddwn yn parhau i fonitro unrhyw effeithiau cost posibl ar y GIG a gwasanaethau gofal iechyd ehangach.

Nodwn fod angen gwneud mwy o waith i ddeall yr opsiynau datgarboneiddio sydd ar gael i losgwyr gwastraff clinigol a mapio sut y gallai ymddygiad eu cwsmeriaid eu helpu i gyrraedd targedau allyriadau HSE.

**Cwestiynau:**

10. **Ydych chi'n cytuno â'n safiad i gynnwys llosgi gwastraff peryglus a chlinigol yn ETS y DU? (Y/N). Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb gan ddisgrifio unrhyw bryderon sydd gennych.**

11. **Pa opsiynau datgarboneiddio fydd ar gael i losgwyr gwastraff peryglus a chlinigol a beth fydd yr amserlen (ee yn syth neu'n hirdymor)?**

12. **A fyddai'r dulliau monitro allyriadau a ddisgrifir yn yr adran 'Monitro ac adrodd' sydd ar gael i losgwyr anarbenigol hefyd ar gael i losgwyr gwastraff peryglus a chlinigol o'r un maint? (Y/N). Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.**

13. **Pe bai llosgi gwastraff peryglus neu glinigol yn cael ei eithrio o ETS y DU rhyw ddydd, a oes risg bod mathau eraill o wastraff yn cael eu cam-labelu fel y naill neu'r llall i osgoi ETS y DU? (Y/N). Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.**

14. **Ydych chi'n cytuno y bydd targedau allyriadau HSE yn cymell llosgwyr gwastraff clinigol i ddatgarboneiddio? (Y/N). Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.**

15. **Ydych chi'n cytuno y bydd cwsmeriaid llosgwyr gwastraff clinigol yn gallu gweithredu i leihau cynnwys ffosil y gwastraff a gynhyrchir ganddynt a chyrraedd eu targedau lleihau gwastraff? (Y/N). Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.**


## Addasu'r cap ar gyfer cyfleusterau llosgi gwastraff

Bydd yr adran yma'n disgrifio'r cynigion i addasu cap ETS y DU i gyfrif am gynnwys allyriadau o EfW a llosgi gwastraff o 2028 ymlaen. Bydd yn disgrifio'r dull arfaethedig o wneud hyn, gan gynnwys i gadw'r cap yn gyson â darparu targedau hinsawdd, yn ogystal â ffigurau ar gyfer lwfansau'r DU (UKA) fydd yn cael eu hychwanegu at y cap drwy'r dull hwn.

## Cefndir: Cap cyson â sero-net ETS y DU

Fel y noda Ymateb yr Awdurdod i ETS y DU yng Ngorffennaf 2023, mae'r Awdurdod wedi penderfynu cynyddu uchelgais y cynllun yn sylweddol drwy gysoni'r cap ar gyfer Cyfnod 1 (2021-2030) â thaflwybr cyson â sero-net. Bydd hyn yn cyfateb i 30% yn llai o gyfanswm lwfansau, o 1365 miliwn i 936 miliwn o lwfansau. Mae addasu'r cap yn rhoi arwydd clir i ddatgarboneiddio ar y cyflymder a'r raddfa sy'n angenrheidiol i gyrraedd sero-net.

Roedd Ymateb yr Awdurdod hefyd yn disgrifio y byddai'r cap cyson â sero-net yn cael ei addasu i gyfrif am gynnwys y sectorau newydd. Roeddem yn awgrymu y byddem yn addasu'r cap i gyfrif am ehangu'r cynllun ond gan gadw'r gofynion i leihau allyriadau i fod yn gyson â darparu sero-net, ein Cyllidebau Carbon a'r NDC yn 2030. Mae'r ffigwr isod yn dangos cynnwys y taflwybrau allyriadau angenrheidiol yn y sector masnachu.




*Ffigwr 1: Llwybr allyriadau dangosol i gwrdd â thargedau hinsawdd, yn cynnwys allyriadau o'r sector masnachu a heb ei fasnachu. Nid yw'r ffigyrau'n adlewyrchu allyriadau gwirioneddol na rhai angenrheidiol – maen nhw'n llwyr i bwrpas esboniadol. Mae'r ffigwr yn dangos bod y llwybr ar y cyfan heb newid. Mae'r addasiad o'r cap yn cyfrif am symudiad allyriadau'r sectorau newydd o'r sector heb ei fasnachu i'r sector masnachu ar ôl eu cynnwys yn ETS y DU.*

## Dull polisi cyffredinol ar gyfer addasu'r cap ar gyfer sectorau newydd

Cynigiwn fod y dull o addasu'r cap a ddisgrifir yn cael ei ddefnyddio yn ystod gweddill Cyfnod I (2021-2030) yn unig. Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo yn "Y llwybr hirdymor ar gyfer Cynllun

Masnachu Allyriadau'r DU" i gadw'r cap yn gyson a sero-net tan 2050,[6] a maes o law bydd yn disgrifio sut y bydd yn penderfynu ar y cap yn y cyfnod nesaf.

Cynigiwn fod addasiadau o'r cap drwy gydol Cyfnod I ETS y DU yn cyfrif am y newidiadau sylweddol i gyfansoddiad y sector masnachu.

Dyma fydd y prif flaenoriaethau ar gyfer addasu cap ETS y DU yn ystod Cyfnod I:

- Sicrhau bod addasiadau o'r cap yn cyfrif am yr holl newidiadau i gyfansoddiad y sector masnachu er mwyn cadw cydbwysedd priodol o ran galw a chyflenwad.
- Cynnal cap sy'n gyson â sero-net drwy sicrhau bod pob addasiad o'r cap yn unol â llwybrau datgarboneiddio'r llywodraeth ar gyfer y sectorau perthnasol.
- Rhoi sicrwydd i gyfranogwyr yn y farchnad drwy leihau pa mor aml yr addasir y cap a chyfuno addasiadau o'r cap lle bo hynny'n bosibl.

Er mwyn cynhyrchu cynigion ar gyfer y sector EfW a llosgi gwastraff, rydym wedi ystyried llwybrau datgarboneiddio diweddaraf Llywodraeth y DU, sy'n gyson a'r Cynllun Darparu Cyllidebau Carbon (CBDP).[7] Oherwydd mai'r 'taflwybrau' hyn sy'n rhoi'r asesiad gorau o'r lleihad mewn allyriadau sydd ei angen ym mhob sector er mwyn cyflawni ymrwymiadau hinsawdd (gan gynnwys sero-net, ein Cyllidebau Carbon a'r NDC), bydd y dull hwn yn sicrhau bod y cap yn aros yn gyson â'r targedau hyn.

Mae'r cynigion hyn yn ystyried y dull o addasu'r cap, gyda'r ffigurau o ganlyniad yn seiliedig ar y dyluniad polisi a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn, ac ar y dystiolaeth sydd ar gael a'r gwaith dadansoddi a wnaed hyd yma. Bydd y dull yn cael ei gadarnhau yn Ymateb yr Awdurdod, gyda'r union ffigurau addasu'n dibynnu ar addasiadau i gyfrif am ba allyriadau sydd i'w cynnwys yn y dyluniad polisi terfynol, barn ymgyngoreion, cyngor y Pwyllgor Newid Hinsawdd (CCC) a chanlyniadau gwaith dadansoddi pellach i sicrhau cysondeb â thargedau hinsawdd Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon.

Bydd yr addasiad yn ychwanegu lwfansau at gap cyson â sero-net ETS y DU. Ni fydd lwfansau ar gyfer cyfranogwyr o'r sectorau newydd yn cael eu clustnodi. Y dyluniad bwriedig ar gyfer ETS y DU fel cynllun cap-a-masnach yw bod y cap yn gosod trothwy ar gyfanswm yr allyriadau gan sectorau'r cynllun, a bod masnachu'n gadael i'r farchnad benderfynu ym mha sectorau y mae allyriadau'n digwydd neu'n cael eu lleihau. Derbyniwn y bydd gwahanol ddiwydiannau'n datgarboneiddio yn ôl taflwybrau gwahanol.

## Dull arfaethedig o addasu'r cap ar gyfer cyfleusterau llosgi gwastraff

Yn Ymateb yr Awdurdod Gorffennaf 2023, roeddem yn dweud y byddai ein hamcangyfrifon o allyriadau perthnasol o gyfleusterau llosgi gwastraff ym mlwyddyn gyntaf eu cynnwys yn llawn

[6] Y llwybr hirdymor ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, GOV.UK *https://www.gov.uk/government/publications/uk-emissions-trading-scheme-long-term-pathway/the-long-term-pathway-for-the-uk-emissions-trading-scheme*

[7] Cynllun Llywodraeth y DU yw'r Cynllun Darparu Cyllidebau Carbon, yn disgrifio'r cynigion a'r polisïau sydd eu hangen i leihau allyriadau a chwrdd ag ymrwymiadau hinsawdd, gan gynnwys Cyllidebau Carbon. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn y Cynllun Darparu Cyllidebau Carbon, GOV.UK *https://www.gov.uk/government/publications/carbon-budget-delivery-plan*

(2028) yn gyfwerth â thua saith miliwn o lwfansau UKA, gan leihau pob blwyddyn am weddill y cyfnod.

Ers hynny rydym wedi gwerthuso'r Senarios Sero-Net o'r Model Dosbarthu Deinamig (DDM), sy'n fodel gan yr Adran Sicrwydd Ynni a Sero-Net sy'n rhoi rhagolygon o'r cyflenwad trydan ym Mhrydain tan 2050.[8] Mae Senarios Sero-Net y DDM yn darparu taflwybrau unigol ar gyfer EfW, EfW a chyfuno gwres a phŵer (CHP) ac ACT, yn ogystal ag ar gyfer ffynonellau cynhyrchu eraill, i roi syniad o'r cymysgedd o gynhyrchu sydd ei angen i fod yn gyson â chyrraedd targedau hinsawdd.[9] Mae'r Senarios Sero-Net felly'n goleuo taflwybr y sector pŵer yn y CBDP a hefyd sut y bydd y cap ar gyfer y rhannau o'r sector pŵer sydd o fewn cwmpas ETS y DU yn cael ei benderfynu.

Cynigiwn felly addasu'r cap ar sail allyriadau sydd o fewn cwmpas ac yn unol â'r taflwybrau Senario Sero-Net ar gyfer EfW, EfW CHP ac ACT, oherwydd mae'r taflwybrau hyn yn cynnig yr asesiad gorau sydd ar gael o'r lleihad mewn allyriadau sydd ei angen yn y sector i gwrdd â thargedau hinsawdd. Bwriadwn hefyd gyfrif am Ragolygon Ynni ac Allyriadau (EEP) ar gyfer allyriadau ffosil o losgi gwastraff heb adfer ynni.[10]

Byddwn yn ceisio addasu'r cap ar sail llwybrau allyriadau sy'n gyson a'r CBDP gan gyfrif am y dadansoddiad diweddaraf o effaith polisïau datgarboneiddio ar allyriadau sectorau, fel y rhai yn y Strategaeth Adnoddau a Gwastraff yn Lloegr, y Strategaeth Mwy nag Ailgylchu yng Nghymru, Strategaeth Rheoli Gwastraff Gogledd Iwerddon a'r Ymgynghoriad ar y Map Llwybr Gwastraff a'r Economi Gylchol yn yr Alban. Mae polisïau perthnasol hefyd yn cynnwys y Model Busnes Dal Carbon Diwydiannol ar gyfer Gwastraff (ICC BM) i gymell defnyddio technoleg dal carbon, rhywbeth sydd ddim wedi'i fodelu yn Senarios Sero-Net y DDM ar hyn o bryd.[11] Cynigiwn felly bod yr addasiad o'r cap yn cyfrif am amcangyfrifon mewnol yr allyriadau ffosil sy'n cael eu lleihau drwy brosiectau Gwastraff Trac 1 yr ICC BM.

Mae'r tabl isod yn cyfrif am y dull arfaethedig, ac ar gyfer cwmpas y cynllun fel y cynigiwn yn yr ymgynghoriad hwn. Mae'n cyfrif ar gyfer cynnwys allyriadau $CO_2$ ffosil o EfW ym Mhrydain, ac o losgi gwastraff heb adfer ynni ar draws y DU.[12]

| | **2028** | **2029** | **2030** | **Cyfan swm** |
|---|---|---|---|---|
| **Addasiad dangosol o'r cap (miliynau o lwfansau UKA)** | **7.9** | **7.2** | **6.8** | **21.9** |

[8] Mae mwy o wybodaeth am ddyluniad a swyddogaeth y DDM ar gael drwy gyfeirio at y Model Dosbarthu Deinamig (DDM) yn GOV.UK *https://www.gov.uk/government/publications/dynamic-dispatch-model-ddm*
[9] Nid yw'r Senarios Sero-Net yn rhagolygon na'n fynegiant o opsiynau a ffafrir neu o bolisi'r llywodraeth. Mae'r 'taflwybrau' penodol ar gyfer EfW, EfW CHP a ACT yn cael eu cadw'n fewnol. Am fwy o wybodaeth am bwrpas a methodoleg Senarios Sero-Net y DDM, dylid cyfeirio at Annexe O, Energy and Emissions Projections: 2021 to 2040, GOV.UK *https://www.gov.uk/government/publications/energy-and-emissions-projections-2021-to-2040*
[10] Anecs C: Rhagolygon Ynni ac Allyriadau: 2022 - 2040, GOV.UK *https://www.gov.uk/government/publications/energy-and-emissions-projections-2022-to-2040*.
[11] Am fwy o wybodaeth, dylid darllen Carbon Capture Usage and Storage (CCUS): Business Models, GOV.UK *https://www.gov.uk/government/publications/carbon-capture-usage-and-storage-ccus-business-models*
[12] Rhoddir mwy o wybodaeth am fewnbynnau a rhagdybiaethau modelu ar gyfer y taflwybrau arfaethedig, fel ar y gyfran ffosil o allyriadau, yn Adran 3 yr atodiad dadansoddol i'r ymgynghoriad hwn.

*Ffigwr 2: Llwybr yr addasiad dangosol o'r cap ar sail y dull arfaethedig, a thrwy gyfrifo fel a ganlyn: Senarios Sero-Net y DDM, ynghyd â rhagolygon llosgi gwastraff heb adfer yr EEP, a llai'r gostyngiad amcangyfrifedig drwy brosiectau Gwastraff Trac 1 yr ICC BM.*[13]

Fel y noda'r ymgynghoriad, ni fwriadwn gynnwys allyriadau o wastraff a ailgylchir yn anfecanyddol neu gemegol yn bolymerau a monomerau i'w ail-ddefnyddio yn yr economi gylchol. Ni ddisgwyliwn i allyriadau o'r gweithgareddau hyn fod yn ddigon sylweddol i newid y ffigurau cyfannol uchod ond bwriadwn ddiystyru'r allyriadau hynny i sicrhau addasiad cywir.

Ar sail y cwmpas sydd mewn golwg yn yr ymgynghoriad, ac ar sail y dystiolaeth a'n dadansoddiad, byddai'r dull hwn yn golygu addasu cap sylfaenol Cyfnod I ETS y DU i gyfrif am ehangu i gynnwys EfW a llosgi gwastraff drwy ychwanegu cyfanswm o 21.9 miliwn o lwfansau UKA o 2028 ymlaen. Ar ôl addasu i ddiystyru allyriadau o gyfleusterau gyda statws HSE neu USE, byddai'r cyfanswm hyn yn cael ei dorri lawr a'r ffigurau'n cael eu hychwanegu at y capiau blynyddol, yn ôl y tabl uchod.

Bydd y ffigurau addasu'n cael eu cadarnhau yn Ymateb yr Awdurdod, ar ôl ystyried addasiadau i gyfrif am yr allyriadau fydd yn cael eu cynnwys yn y dyluniad polisi terfynol, a hefyd ar ôl i ni ystyried y dadansoddiad uchod, cyngor y CCC a barn ymgyngoreion.

**Cwestiynau:**

16. **Ydych chi'n cytuno bod y dull arfaethedig, o ychwanegu lwfansau cyfwerth ag allyriadau mewn cwmpas ym mhob taflwybr allyriadau'n gysylltiedig â'r CBDP, yw'r dull priodol o addasu'r cap i sicrhau'r lleihad mewn allyriadau i gwrdd â thargedau hinsawdd? (Y/N). Eglurwch eich rhesymau gan gynnwys drwy gynnig dull arall lle bo hynny'n briodol.**

17. **Ydych chi'n cytuno â'r dull arfaethedig o addasu'r cap i gyfrif am gynnwys allyriadau o'r sector llosgi gwastraff yn y cynllun? (Y/N). Eglurwch eich rhesymau gan gyfeirio at unrhyw ddulliau eraill neu ffynonellau tystiolaeth eraill, fel effaith polisïau ar y gyfran ffosil o allyriadau.**

18. **Beth fyddech yn disgwyl i effaith y dull arfaethedig o addasu'r cap fod ar gyfranogwyr yn y sector a / neu ar farchnad ehangach ETS y DU? Eglurwch eich rhesymau os gwelwch yn dda.**

# Cymryd rhan yn y cynllun

## Y gyfundrefn reoleiddio a gofynion ar weithredwyr

Ar y cyfan, rydym yn disgwyl y bydd y darpariaethau rheoleiddio sy'n ofynnol ar gyfer sectorau o fewn cwmpas ETS y DU ar hyn o bryd hefyd yn berthnasol i gyfleusterau llosgi gwastraff o'r 1 Ionawr 2028 ymlaen. Bydd blwyddyn y cynllun yn rhedeg o'r 1 Ionawr tan 31 Rhagfyr a bydd y terfynau amser presennol ar gyfer adrodd ac ildio, sef 31 Mawrth am y naill a 30 Ebrill am y llall, yn berthnasol i'r sector. Bydd angen i weithredwyr gwastraff wneud cais am Drwydded Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr cyn cymryd rhan yn y cynllun a chydymffurfio ag amodau'r drwydded. Bydd unrhyw ddirwyon a godir ar osodiadau o dan ETS y DU, gan gynnwys rhai'n

[13] Rhoddir mwy o wybodaeth am y cyfrifiad hwn yn Adran 3 yr atodiad dadansoddol i'r ymgynghoriad hwn.

ymwneud â MRV allyriadau, hefyd yn berthnasol i'r sector gwastraff. Bydd hefyd angen i weithredwyr gwastraff benodi dilysydd annibynnol i ddilysu eu hadroddiad allyriadau blynyddol. Rhaid i'r darparwr fod wedi'i achredu'n briodol gan UKAS. Y rheoleiddwyr fydd rheoleiddwyr presennol ETS y DU sef Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer cyfleusterau yn Lloegr, Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer cyfleusterau yng Nghymru, Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban ar gyfer cyfleusterau yn yr Alban ac Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon ar gyfer cyfleusterau yng Ngogledd Iwerddon.

O'r 1 Ionawr 2028 ymlaen, bwriadwn hefyd i'r dirwyon am fethu ag ildio digon o lwfansau erbyn y terfyn amser perthnasol fod yr un rhai ag ar gyfer gweithredwyr presennol, yn ogystal â dirwyon yn ymwneud â thargedau allyriadau i osodiadau gyda statws HSE. Am fethu ag ildio digon o lwfansau ar gyfer allyriadau adroddadwy erbyn y terfyn amser, bydd gweithredwyr yn gorfod talu dirwy orfodol o £100 am bob lwfans na fyddant yn ei ildio (wedi'i luosi gan ffactor chwyddiant) yn ogystal ag ildio'r lwfansau cyfwerth ar gyfer allyriadau adroddadwy. Bydd yr holl ofynion uchod yn berthnasol i allyriadau carbon ffosil yn unig.

Bydd y gofynion dros y cyfnod pontio MRV yn unig yn dibynnu a yw'r cyfnod yn wirfoddol neu'n orfodol. Os yw'n orfodol, bydd angen i weithredwyr wneud cais am Drwydded Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr a chyflwyno cynllun monitro i'w rheoleiddiwr cyn 2026. Byddai'r un dirwyon â'r uchod, ar wahân i ddirwyon yn ymwneud ag ildio lwfansau, yn berthnasol. Os yw'r cyfnod yn wirfoddol, ni fyddai angen i weithredwyr wneud cais am drwydded Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr na chyflwyno cynllun monitro ar gyfer 2026.

Rhoddir mwy o fanylion am y cyfnod pontio MRV yn unig yn yr adran isod.

**Cwestiynau**

19. **Ydych chi'n cytuno ei bod yn ymarferol bod gofynion rheoleiddio presennol y cynllun, fel y cylch cydymffurfio, gofynion trwydded, gofynion cynllun monitro, a dirwyon, yn cael eu cyflwyno ar gyfer sector gwastraff? (Y/N). Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.**

## Cyfnod MRV yn unig

Bwriadwn ehangu ETS y DU i gynnwys cyfleusterau llosgi gwastraff yn 2026, gyda chyfnod pontio MRV o ddwy flynedd rhwng 1 Ionawr 2026 a 31 Rhagfyr 2027. Gallai'r cyfnod hwn fod yn orfodol neu'n wirfoddol.

### Amcanion y cyfnod pontio

Mae nifer o resymau pam fod yr Awdurdod yn awyddus i gyflwyno cyfnod MRV yn unig. Yn gyntaf, defnyddir y data fydd yn cael ei gasglu i oleuo penderfynu'r cap yn y dyfodol, ar ôl 2030. Ar hyn o bryd nid yw'r rhan fwyaf o gyfleusterau llosgi gwastraff yn monitro eu hallyriadau carbon ffosil (dim ond cyfanswm eu hallyriadau carbon). Bydd data wedi'i gasglu dros y cyfnod MRV yn unig felly'n ein cynorthwyo i ddilysu taflwybr ein hallyriadau cyson â sero-net, ac i wneud penderfyniadau ar y cap ar ôl 2030. Mae sicrhau bod y cap yn aros yn gyson â sero-net yn allweddol i leihau allyriadau sectorau'r cynllun.

Yn ail, bydd y cyfnod MRV yn unig yn helpu i adnabod unrhyw broblemau gyda'n dull cyn cyflwyno costau llawn. Mae hyn yn arbennig o wir gyda phroblemau'n ymwneud ag MRV, cyn i ni addasu'r cap ar gyfer cyfleusterau llosgi gwastraff ac y bydd angen prynu ac ildio lwfansau. Mae cyfleusterau llosgi gwastraff yn allyrru mwy o allyriadau biogenaidd na sectorau sy'n rhan o ETS y DU ar hyn o bryd. Gan hynny bydd angen gweithredu dulliau monitro fydd yn gallu

gwahaniaethu rhwng yr allyriadau ffosil a biogenaidd, sy'n lefel ychwanegol o gymhlethdod o'i gymharu â sectorau eraill, a bydd angen i lawer o gyfleusterau gael technoleg fonitro newydd. Pe bai'r sector llosgi gwastraff yn gorfod talu'r pris carbon heb gael cyfnod MRV yn unig yn gyntaf, byddai'n cynyddu'r risg bod cyfranogwyr yn methu â monitro ac adrodd eu hallyriadau'n gywir, a allai effeithio ar gyfranogwyr eraill. Er enghraifft, os na fyddai nifer sylweddol o gyfranogwyr yn prynu'r nifer iawn o lwfansau, gallai effeithio ar brisiau carbon. Yn ei dro, gallai hyn wneud y cynllun yn llai effeithiol gyda lleihau allyriadau.

Bydd y cyfnod MRV yn unig hefyd yn rhoi manteision eraill i'r sector. Er enghraifft, drwy roi ffigurau allyriadau mwy cywir, a byddai cwsmeriaid hefyd yn deall yn well unrhyw gostau ETS y DU a allai gael eu pasio ymlaen iddynt a chymryd camau i leihau eu costau yn y dyfodol, gan gynorthwyo i ddatgarboneiddio'r sector. Bydd yr Awdurdod hefyd yn defnyddio'r data hwn i ddeall effaith ETS y DU ar gwsmeriaid EfW yn well. Bydd y cyfnod MRV yn unig hefyd yn helpu gweithredwyr a'u cwsmeriaid i ddeall yn well sut y mae ETS y DU yn gweithio a beth fydd y gofynion arnynt.

## Gofynion ar weithredwyr dros y cyfnod MRV yn unig

Opsiwn 1: Cyfnod MRV yn unig - gorfodol

Os yw'r cyfnod yn orfodol, cynigiwn fod cyfleusterau llosgi gwastraff yn dod yn gyfranogwyr llawn yn ETS y DU. Fodd bynnag, ni fyddai'r gofyniad iddynt brynu ac ildio lwfansau yn dechrau tan 2028 ac felly'r unig ofynion y byddai ganddynt rhwng 2026-28 fyddai monitro, adrodd a dilysu eu hallyriadau. Byddai felly angen i gyfranogwyr EfW gwrdd â gofynion MRV am y gweithgaredd rheoledig perthnasol. Bydd hyn yn cynnwys cwblhau cynllun monitro, i'w gymeradwyo gan y rheoleiddiwr cyn 1 Ionawr 2026, monitro allyriadau, dilysu eu hadroddiadau allyriadau, a chyflwyno adroddiadau wedi eu dilysu i'r rheoleiddiwr. Rhoddir mwy o fanylion am y gofynion monitro yn adran nesaf y bennod hon.

Byddai cyfleusterau gyda llai na 25,000 $tCO_2$ o allyriadau ffosil yn cael eu dosbarthu fel allyrwyr isel ac felly'n gorfod cwrdd â gofynion monitro ac adrodd llai beichus yn unol â'u statws HSE (rhoddir mwy o fanylion ar hyn yn adran nesaf y bennod hon). Felly hefyd, byddai cyfleusterau gydag allyriadau o dan 2,500 $tCO_2e$ yn gallu ymgeisio am statws USE, a'r unig ofyniad fyddai dangos tystiolaeth eu bod yn parhau i fod yn gymwys am y statws drwy gynllun monitro i'w cytuno â'r rheoleiddiwr a pharhau i fonitro'n unol â'r cynllun hwnnw. Dros y cyfnod MRV yn unig, byddai angen i bob cyfleuster, gan gynnwys rhai a allai ymgeisio am y ddau statws, ddilysu eu hallyriadau nes eu bod wedi ymgeisio a llwyddo i gael statws HSE neu USE, pryd y byddent wedyn ond yn gorfod cwrdd â gofynion y naill statws neu'r llall. Byddwn yn disgwyl i gyfleusterau sy'n cwrdd â gofynion statws HSE neu USE fod yn gallu ymgeisio am y naill statws neu'r llall cyn 2028, cyn cyflwyno costau llawn.

Opsiwn 2: Cyfnod MRV yn unig - gwirfoddol

Os yw'r cyfnod yn wirfoddol, ni fydd cyfleusterau llosgi gwastraff yn dod yn gyfranogwyr llawn yn ETS y DU tan 2028. Dros y cyfnod MRV gwirfoddol, gallai gweithredwyr ddewis monitro eu hallyriadau a dewis rhannu data â'r Awdurdod a'u cwsmeriaid pe byddent yn dewis gwneud hynny. Oherwydd na fyddai gan gyfleusterau drwydded Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr na chynllun monitro wedi'i gymeradwyo gan y rheoleiddiwr, gallai sut y byddent yn monitro eu hallyriadau fod yn wahanol i'r gofynion terfynol ar ôl 2028. Hefyd, heb gynllun monitro wedi'i gymeradwyo, ni fyddent yn gallu dilysu eu hallyriadau. Gallai'r Awdurdod ddefnyddio data allyriadau wedi'i rannu drwy gyfnod gwirfoddol o'r fath i oleuo ei benderfyniadau cap ar ôl 2030, er y nodwn na fyddai allyriadau wedi eu dilysu gyda'r opsiwn hwn. Nodwn hefyd pe bai cyfleusterau'n dymuno dangos tystiolaeth o fod yn gymwys am statws HSE neu USE cyn

2028, byddai angen iddynt fonitro, adrodd a dilysu eu hallyriadau, ac ni fyddai hyn yn bosibl gyda chyfnod gwirfoddol. Byddai'r Awdurdod yn rhoi canllawiau ar fonitro a sut y gallai gwybodaeth gael ei rhannu'n ddefnyddiol â chwsmeriaid a'r Awdurdod.

Byddem yn hoffi deall goblygiadau'r ddau opsiwn hwn yn well.

**Cwestiynau:**

20. **Ydych chi'n cytuno mai cyfnod MRV yn unig yw'r ffordd orau i gwrdd ag amcanion y cyfnod pontio ar gyfer y sector hwn? (Y/N). Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.**

21. **Sut y bydd gweithredwyr a chwsmeriaid yn defnyddio unrhyw ddata o'r cyfnod MRV yn unig?**

22. **I gwsmeriaid a gweithredwyr, a fydd gwybod beth fydd y costau disgwyliedig yn gynt na phan weithredir y cynllun yn llawn yn creu cymhelliad cynnar i beidio â gorfod talu'r pris carbon? (Y/N). Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.**

23. **Os bydd y cyfnod MRV yn orfodol (Opsiwn 1): Ydych chi'n cytuno y dylai cyfleusterau llosgi gwastraff orfod cwrdd â'r un gofynion MRV yn 2026-28 ag o 2028 ymlaen (ee adrodd allyriadau ar gyfer eu holl unedau hylosgi ar y safle)?**

24. **Os yw'r cyfnod MRV yn orfodol (Opsiwn 1): A oes gennych unrhyw bryderon y byddai'n rhaid i bob cyfleuster llosgi gwastraff gwrdd â gofynion MRV, cyn ymgeisio am statws HSE/USE?**

25. **Os yw'r cyfnod MRV yn wirfoddol (Opsiwn 2): Pa mor debygol yn eich barn chi yw y byddai gweithredwyr yn monitro eu hallyriadau ffosil?**

26. **Os yw'r cyfnod MRV yn wirfoddol (Opsiwn 2): Pa mor debygol yn eich barn chi yw y byddai gweithredwyr yn:**
    **a) rhannu eu hallyriadau â chwsmeriaid fel eu bod yn deall eu costau posibl yn y dyfodol yn well, a**
    **b) rhannu eu hallyriadau ag Awdurdod ETS y DU i oleuo penderfyniadau ar y cap ac fel tystiolaeth o fod yn gymwys am statws HSE neu USE?**

27. **A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y cyfnod pontio MRV yn unig, ac ar y naill opsiwn neu'r llall?**

## Gofynion monitro ac adrodd

O dan ETS y DU, bydd ond angen i gyfleusterau llosgi gwastraff brynu ac ildio lwfansau ar gyfer eu hallyriadau ffosil, neu allyriadau biogenaidd. Mae'r Awdurdod wedi bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid i drafod y dulliau monitro allyriadau sydd ar gael i gyfleusterau llosgi gwastraff er mwyn gallu gwahaniaethu rhwng yr allyriadau ffosil a biogenaidd. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys adroddiad allanol gan Ricardo yn asesu cywirdeb, cost a pha mor ymarferol

fyddai'r dulliau canlynol: samplo a dadansoddi deunyddiau crai, samplo a dadansoddi nwyon ffliw, a dulliau darogan (cydbwysedd)[14]:

- Deallwn fod samplo a dadansoddi nwyon ffliw i ganfod presenoldeb isotop carbon-14 mewn allyriadau'n ddull cywir o benderfynu allyriadau $CO_2$ ffosil ac yn ddull sy'n cael ei ffafrio gan weithredwyr mawr yn y sector.
- Mae angen gwneud mwy o waith i benderfynu pa mor effeithiol yw dulliau darogan (cydbwysedd) (ee BIOMA), oherwydd, o dystiolaeth treialon gan y diwydiant, mae peth pryder wedi codi am eu gweithrediad a'u perfformiad.
- Deallwn fod dulliau samplo a dadansoddi deunyddiau crai, yn enwedig didol â llaw, a hydoddi dethol, yn gallu bod yn ddrud, yn ddwys o ran llafur ac yn ildio canlyniadau gydag ystod uwch o ansicrwydd na'r dulliau eraill a drafodwyd.

Daw pob un o'r dulliau hyn gyda chostau gosod a gweithredu a allai eu gwneud yn anaddas ar gyfer rhai gosodiadau llai. Yn unol felly â'r sectorau presennol sydd yn y cynllun, rydym yn ystyried sut y gallai ffactorau cyfrifo diofyn gael eu defnyddio i benderfynu allyriadau $CO_2$ ffosil mewn cyfleusterau llosgi gwastraff llai. Rydym yn cydnabod bod gwahaniaethau gwladol, rhanbarthol a lleol o ran dangosyddion perfformiad allweddol (KPI) rheoli gwastraff (ee cyfraddau ailgylchu) ar draws y DU, a allai olygu bod angen datblygu ffactorau cyfrifo diofyn mwy 'amlweddog' i adnabod y rhaniad rhwng allyriadau ffosil a biogenaidd, a'r allyriadau hylosgi, yng nghyfansoddiad y gwastraff.

Mae yna hefyd fanteision o beidio â rhagnodi dulliau penodol drwy ddeddfwriaeth oherwydd bydd hyn yn rhoi hyblygrwydd i weithredwyr i ddatblygu cynlluniau monitro ac adrodd sy'n addas iddynt, ac a fyddai'n caniatáu ar gyfer datblygiadau technolegol. Fodd bynnag, dylid cydbwyso hyn â'r ffaith bod angen i fonitro fod yn gywir a chymesur i faint yr allyriadau a bod angen i Awdurdod ETS y DU roi disgwyliadau clir o ran y gofynion monitro ac adrodd.

Nodwn y trafodir opsiynau i gefnogi pasio costau ETS y DU cywir, o weithredwyr y cyfleusterau llosgi gwastraff i gwsmeriaid, nes ymlaen yn yr ymgynghoriad.

## Dulliau haenog

Cynigiwn gysoni'r gofynion monitro ac adrodd ar gyfer cyfleusterau llosgi gwastraff yn unol â'r haenau a sefydlwyd yn barod ar gyfer sectorau sydd eisoes yn rhan o ETS y DU[15].

Rydym yn ymgynghori ar addasrwydd dau ddull haenog presennol er mwyn sefydlu pa un a fyddai fwyaf addas. Byddai'r opsiwn cyntaf yn seiliedig ar haenau ystodau ansicrwydd wedi eu dyrannu i ddulliau mesur i benderfynu allyriadau $CO_2$ cyffredinol y cyfleusterau. Byddai'r ail opsiwn yn seiliedig ar haenau dulliau methodoleg wedi eu dyrannu i gyfleusterau er mwyn penderfynu ffracsiynau biomas y tanwyddau a losgir ganddynt.

Mae gan osodiadau gyda statws HSE (wedi eu categoreiddio fel 'allyrwyr isel' isod) ofynion monitro ac adrodd o dan y ddau strwythur haenog hwn. Nodwn er nad oes gofynion penodol ar gyfer cyfleusterau gyda statws USE yn y strwythurau hyn, y bydd angen i'r cyfleusterau hyn

[14] Opsiynau MRV Ricardo ar gyfer cynnwys cyfleusterau Ynni o Wastraff a Llosgwyr Gwastraff yn ETS y DU. Adroddiad a chanfyddiadau'r prosiect 2024 https://www.gov.uk/government/publications/climate-services-for-a-net-zero-resilient-world/cs-n0w-overview

[15] Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (Undeb Ewropeaidd) 2018/2066, sydd wedi'i gymhwyso i ETS y DU drwy erthygl 24 Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020. https://eur-lex.europa.eu/eli/reg_impl/2018/2066/oj

gyflwyno cynlluniau monitro i'w cymeradwyo gan y rheoleiddwyr i sicrhau bod ganddynt ddull priodol o fonitro allyriadau yn ei le. Rydym yn holi barn am ba mor addas yw'r haenau hyn i gyfleusterau llosgi gwastraff llai. Lle bo angen, byddwn yn ystyried a ganiateir gofynion monitro ac adrodd symlach y tu allan i'r haenau arfaethedig.

### Opsiwn 1 – Haenau'r dulliau ar sail mesur:

O dan y Rheoliadau Monitro ac Adrodd presennol, mae haen (1-4) yn cael ei dyrannu i osodiadau sy'n rhan o ETS y DU, gan ddibynnu ar ba gategori allyrrwr y maen nhw'n disgyn iddo[16]. Diffinnir y categorïau fel a ganlyn:

- Categori A 50,000 $tCO_2e$ y flwyddyn – Haen 2 (yn gallu ymgeisio am Haen 1)
- Categori B >50,000 - ≤500,000 $tCO_2e$ y flwyddyn – Haen 4 (yn gallu ymgeisio am Haen 2 neu 3)
- Categori C >500,000 $tCO_2e$ y flwyddyn – Haen 4 (yn gallu ymgeisio am Haen 3)

Ucha'n byd yw'r haen, isa'n byd yw'r ystod ansicrwydd fydd gan y gosodiad yn eu cynllun monitro er mwyn penderfynu cyfanswm eu hallyriadau $CO_2$[17]. Nodwn fod hyn yn cynnwys darpariaethau ar gyfer cyfleusterau sy'n allyrwyr isel. Crynhoir y gofynion hyn yn Ffigwr 3 isod.

Ffigwr 3:

| Ansicrwydd allyriadau $CO_2$ | Haen 1 – Ystod ansicrwydd ±10% | Haen 2 – Ystod ansicrwydd ±7.5% | Haen 3 – Ystod ansicrwydd ±5% | Haen 4 – Ystod ansicrwydd ±2.5% |
|---|---|---|---|---|
| Categori A | Gallu ymgeisio | Diofyn | | |
| Categori B | | Gallu ymgeisio | Gallu ymgeisio | Diofyn |
| Categori C | | | Gallu ymgeisio | Diofyn |
| Allyrrwr isel | Diofyn | | | |

Yr egwyddor gyffredinol yw y dylai gosodiadau fonitro i'r cywirdeb uchaf posibl, ac os defnyddir haen is, y dylent geisio cyrraedd haen uwch. Gall gosodiadau ymgeisio am haenau is os ydynt yn gallu dangos i'r rheoleiddiwr cymwys na fyddai mabwysiadu'r haen uwch yn ymarferol a thechnegol bosibl neu'n achosi costau afresymol.

Yn ôl data Awdurdod ETS y DU ar amcangyfrifon allyriadau $CO_2$ ffosil, byddai'r holl gyfleusterau EfW yn disgyn i gategori A neu B neu'n gymwys am statws HSE neu USE.

Byddai mabwysiadu'r gofynion monitro ac adrodd 'ar sail haen' hyn ar gyfer cyfleusterau llosgi gwastraff yn rhoi hyder yn lefel yr allyriadau a adroddir, yn gadael lle i arloesi a datblygu

[16] Yn ogystal â lefelau allyriadau, mae categorïau hefyd yn cael eu dyrannu i osodiadau ar sail eu ffrydiau ffynonellau gwastraff. Rhoddir mwy o wybodaeth yn Erthygl 19 ac Erthygl 26 y Rheoliad Monitro ac Adrodd. https://www.legislation.gov.uk/eur/2018/2066/contents

[17] Nodyn Cyfarwyddyd ETS y DU: Asesiadau Ansicrwydd ar gyfer Gosodiadau. 2022. https://assets.publishing.service.gov.uk/media/62cd78858fa8f54e88ec4fbe/uk_ets_guidance_note_uncertainty_assessments_for_installations.pdf

dulliau, a byddai mabwysiadu haenau sy'n benodol seiliedig ar faint yr allyrrwr yn gyson â'n nod o sicrhau nad yw ehangu ETS y DU yn effeithio'n anghymesur ar gyfleusterau llai.

Fodd bynnag, deallwn fod angen ystyried addasrwydd yr haenau hyn o ystyried eu bod yn berthnasol, ar hyn o bryd, i ddulliau ar sail mesur ac nid efallai i ddulliau ar sail cyfrifo i benderfynu allyriadau $CO_2e$ ffosil. Hefyd, gallai fod heriau gyda phenderfynu ystodau ansicrwydd cywir ar gyfer y dulliau monitro ac adrodd, o ystyried gwahanol gamau'r prosesau ym mhob un (ee os cymerir sampl o wastraff sydd yna'n cael ei anfon i'r labordy, yna'n cael ei ddadansoddi, byddai gan bob cam ei ystod ansicrwydd ei hun).

O gofio hyn oll, rydym wedi amcan-asesu ble y teimlwn y gallai'r dulliau monitro a amlinellir (rhoddir manylion pellach am bob un yn adroddiad Ricardo[18]) eistedd ym mhob un o'r categorïau allyrwyr. Crynhoir hyn yn Ffigwr 4 isod a byddem yn falch o dderbyn barn rhanddeiliaid am yr amcan-asesiad hwn.

Ffigwr 4:

X = annhebygol o fod yn addas

✓ = gallai fod yn addas

✓✓ = mwyaf tebygol o fod yn addas

| Dull | Is-ddull | Allyrrwr isel | Categori A | Categori B | Categori C |
|---|---|---|---|---|---|
| Dull symlach | Ffactorau cyfrifo diofyn | ✓✓ | ✓ | X | X |
| Samplo a dadansoddi deunyddiau crai | Didol â llaw | X | X | X | X |
| | Y dull hydoddi dethol | X | X | X | X |
| | Dull radiocarbon (carbon-14) | X | X | X | X |
| Samplo a dadansoddi nwyon ffliw | Dull radiocarbon (carbon-14) | X | ✓✓ | ✓✓ | ✓✓ |
| Dull darogan (cydbwysedd) | BIOMA | X | ✓ | ✓ | ✓ |

[18] MRV

### Opsiwn 2 – Penderfynu haenau ffracsiynau biomas:

O dan y Rheoliadau Monitro ac Adrodd, rhaid i osodiadau sy'n dangos y ffracsiwn biomas yn y tanwyddau a losgir ganddynt wneud hynny'n unol â haenau'r dulliau methodoleg a grynhoir yn Ffigwr 5.

Ffigwr 5:

| Penderfynu ffracsiynau biomas | Haen 1 – dull ffactorau cyfrifo diofyn | Haen 2 – dulliau amcan-fesur | Haen 3 – dulliau dadansoddi |
|---|---|---|---|
| Categori A | Diofyn | | |
| Categori B | Gallu ymgeisio | Gallu ymgeisio | Diofyn |
| Categori C | Gallu ymgeisio | Gallu ymgeisio | Diofyn |
| Allyrrwr isel | Diofyn | | |

Diffinnir yr haenau fel a ganlyn:

- Haen 1 – Dull ffactorau cyfrifo diofyn a gyhoeddir gan y Llywodraeth.
- Haen 2 – Dulliau amcan-fesur (ee dull ffactorau cyfrifo diofyn pwrpasol neu ddull darogan (cydbwysedd).
- Haen 3 – Dulliau dadansoddi (ee carbon-14, hydoddi dethol, neu ddidol â llaw).

Mae canllawiau ETS y DU[19] ar gyfer monitro ac adrodd biomas mewn gosodiadau'n disgrifio'r dulliau perthnasol i haen 2 a 3. Ar gyfer dulliau amcan-fesur (haen 2), yn ôl y canllawiau rhaid i ddulliau amcan-fesur fod yn seiliedig ar ddulliau a brofwyd yn wyddonol. Dylid ffafrio dulliau sy'n cyfeirio, yn rhannol o leiaf, at safonau EN, ISO neu genedlaethol, ac at gyhoeddiadau a adolygwyd gan gymheiriaid.

Ar gyfer dulliau dadansoddi (Haen 3), noda'r canllawiau bod yn rhaid i weithredwyr ddefnyddio'r dull carbon-14 oni ellir dangos yn foddhaol i'w rheoleiddiwr y byddai'r dull hwn yn achosi costau afresymol neu'n dechnegol anymarferol. Fodd bynnag, noda'r canllawiau hefyd fod yn rhaid i'r safonau fod yn briodol i'w defnydd, sy'n rhoi hyblygrwydd i ddefnyddio dulliau dadansoddi eraill lle bo angen.

Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn caniatáu hyblygrwydd drwy ddarparu bod gosodiadau'n gallu mabwysiadu dull haen is mwy addas os gellir dangos nad yw dull methodoleg yr haen y cawsant eu dyrannu iddi'n dechnegol ymarferol neu y byddai'n achosi costau afresymol.

[19] https://www.gov.uk/government/publications/uk-emissions-trading-scheme-uk-ets-monitoring-and-reporting-biomass-in-installations

**Cwestiynau:**

28. **Ydych chi'n cytuno y dylid mabwysiadu dull haenog ar gyfer gofynion monitro ac adrodd o dan ETS y DU? (Y/N). Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.**

29. **Ydych chi'n meddwl y byddai Opsiwn 1 yn addas ar gyfer cyfleusterau llosgi gwastraff? (Y/N). Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.**

30. **Ydych chi'n cytuno a'n hamcan-asesiad yn Ffigwr 4 o sut y gallai'r dulliau monitro allyriadau sydd ar gael i'r sector gyfateb i'r ystodau ansicrwydd ar gyfer pob haen yn Opsiwn 1? (Y/N). Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.**

31. **Ydych chi'n meddwl y byddai Opsiwn 2 yn addas ar gyfer cyfleusterau llosgi gwastraff? (Y/N). Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.**

32. **Pa ddull (ee gwladol, rhanbarthol neu benodol i'r gosodiad) y dylid ei ddefnyddio i ddatblygu ffactorau cyfrifo diofyn ar gyfer gosodiadau llai? Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.**

## Canllawiau

Derbyniwn y bydd angen cymorth ar gyfleusterau llosgi gwastraff i weithredu'r mesurau a drafodir yn yr ymgynghoriad hwn.

Bwriadwn weithio â'r rheoleiddwyr perthnasol ac ar draws Awdurdod ETS y DU i ddatblygu canllawiau wedi eu teilwrio, fel bo angen, i helpu cyfranogwyr i gwrdd â'r gofynion o dan ETS y DU a'u cynorthwyo nhw a'u cwsmeriaid i baratoi ar gyfer pasio'r costau cydymffurfio ymlaen.

Cyn cyhoeddi, byddem yn gobeithio profi'r canllawiau gyda rhanddeiliaid perthnasol yn y gadwyn rheoli gwastraff.

### Canllawiau ar gyfer cyfleusterau llosgi gwastraff

Bwriadwn roi canllawiau ar gyfer y gofynion sector-benodol fydd gan weithredwyr cyfleusterau llosgi gwastraff. Er enghraifft, derbyniwn y bydd angen canllawiau ar gyfranogwyr ar eu dull MRV, sut fydd y trothwyon HSE ac USE yn cael eu cymhwyso, gofynion y cyfnod pontio MRV yn unig, ac ar basio costau ymlaen.

Gobeithiwn gynhyrchu'r canllawiau hyn cyn y cyfnod pontio MRV-only yn unig o 2026 ymlaen.

### Canllawiau ar gyfer cwsmeriaid cyfleusterau llosgi gwastraff

Deallwn, ar gyfer cwsmeriaid cyfleusterau llosgi gwastraff, y byddai canllawiau wedi eu teilwrio, ar basio costau ymlaen gan y gweithredwr i'w cwsmeriaid, o fudd neilltuol.

Byddem hefyd, pe bai angen, yn cyflwyno canllawiau ar rôl polisïau perthnasol eraill, fel y pEPR, ac ar gyfleoedd i ddatgarboneiddio, er mwyn osgoi gorfod talu'r pris carbon. Byddai hyn yn cynnwys gwybodaeth am gymorth ehangach i awdurdodau lleol gyda mwy o fanylion am hyn yn yr adran "Llwybrau Datgarboneiddio".

Gobeithiwn gynhyrchu'r canllawiau hyn cyn y cyfnod pontio MRV yn unig o 2026 ymlaen, a'u diwygio lle bo angen i adlewyrchu'r tirlun polisïau datgarboneiddio, pan ddaw'r cyfnod pontio i ben ar 31 Rhagfyr 2017.

**Cwestiynau:**

33. **Ar ba agweddau ar y polisi y dylem gynhyrchu canllawiau, i weithredwyr, eu cwsmeriaid neu'r ddau? Eglurwch eich rhesymau os gwelwch yn dda.**
34. **Sut ddylem ni geisio profi unrhyw ganllawiau naill ai i weithredwyr, eu cwsmeriaid neu'r ddau? Eglurwch eich rhesymau os gwelwch yn dda.**
35. **I ba amserlen y dylem gynhyrchu canllawiau ar wahanol agweddau ar y polisi, ac i wahanol gynulleidfaoedd? Eglurwch eich rhesymau os gwelwch yn dda.**

# Effaith y cynllun a lleihau risgiau niweidiol

## Arallgyfeirio gwastraff at dirlenwi ac allforio

Rydym yn cydnabod pryderon a leisiwyd gan randdeiliaid, yn enwedig yn y sector rheoli gwastraff, y gallai ehangu ETS y DU i gynnwys cyfleusterau llosgi gwastraff ei gwneud yn gymharol ratach anfon gwastraff i gael ei dirlenwi. Gallai hyn danseilio'r hierarchaeth wastraff drwy annog gweithredwyr i anfon mwy o wastraff i gael ei dirlenwi a chymell yn erbyn arloesi a buddsoddi mewn dulliau mwy cynaliadwy o reoli gwastraff.

Mae rhanddeiliaid hefyd wedi cyfeirio at y risg o ddadleoli carbon drwy arallgyfeirio mwy o wastraff i'w allforio dramor, fel Tanwydd o Sbwriel (RDF) neu Danwydd o Solidau (SRF). Rydym yn croesawu barn am sut y gallai'r Awdurdod geisio rheoli'r risg yma. Er mai lwfansau am ddim yw'r prif ddull a ddefnyddir i reoli'r risg o ddadleoli carbon mewn sectorau eraill o dan ETS y DU, ni chredwn eu bod yn ffordd effeithiol o ddelio â'r risg o allforio RDF/SRF ac mae'r ymgynghoriad hwn yn holi barn am ddulliau eraill.

### Rôl bosibl trethi tirlenwi

Cyflwynwyd y Dreth Dirlenwi ar draws y DU ar 1 Hydref 1996 fel cymhelliad economaidd i arallgyfeirio gwastraff o dirlenwi a thuag at opsiynau mwy amgylcheddol gyfeillgar o reoli gwastraff, gan gynnwys EfW ac ailgylchu.

Cafodd y Dreth Dirlenwi yna ei datganoli i'r Alban yn 2015 ac i Gymru yn 2018. Mae'r tair treth ar hyn o bryd yn eithaf tebyg o ran amcanion, dyluniad a strwythur ac yn cael eu cydnabod yn eang fel bod yn llwyddo i helpu i leihau faint o wastraff sy'n cael ei dirlenwi.

Bydd cyfraddau'r tair treth dirlenwi'n cael eu hadolygu'n gyson fel eu bod yn parhau i gefnogi'r hierarchaeth wastraff drwy gynnig cymhellion i arallgyfeirio gwastraff o gael ei dirlenwi.

Mae cyfraddau'r Dreth Dirlenwi'n cael eu penderfynu'n flynyddol mewn digwyddiadau cyllidol ar draws y DU. Ar y llaw arall, bydd pris ETS y DU yn amrywio yn ôl amodau'r farchnad.

Ystyrir amrywiaeth o ffactorau wrth benderfynu pa gyfraddau treth dirlenwi i'w gosod yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae hyn yn cynnwys amcanion amgylcheddol, effaith ar fusnesau ac awdurdodau lleol, risg o ganlyniadau anfwriadol fel troseddau gwastraff, a chyllid cyhoeddus yn gyffredinol. O 2028 ymlaen, un o'r prif ystyriaethau fydd effaith prisiau carbon ar losgi gwastraff, a chost hynny o'i gymharu â thirlenwi.

## Y posibilrwydd o gynnwys allyriadau tirlenwi yn ETS y DU

Mae rhai rhanddeiliaid wedi dadlau y byddai ehangu ETS y DU i gynnwys allyriadau o dirlenwi'n rheoli unrhyw risg bosibl y byddai tirlenwi'n dod yn rhatach na llosgi gwastraff. Byddai cynnwys tirlenwi yn ETS y DU yn golygu bod yr un pris carbon yn cael ei dalu am losgi gwastraff a thirlenwi a byddai cap ETS y DU yn creu 'taflwybr' datgarboneiddio hirdymor ar gyfer y sector.

Ar gyfer yr opsiwn hwn, byddai angen ymgynghori ymhellach ar yr un llinellau ag ar gyfer ehangu ETS y DU i gynnwys llosgi gwastraff. Byddai hefyd angen datblygu cynigion i fonitro allyriadau $CO_2$ o safleoedd tirlenwi. Y prif nwy tŷ gwydr sy'n cael ei allyrru o dirlenwi yw methan, wrth i wastraff biogenaidd ddadansoddi'n anaerobig - proses sy'n digwydd dros gyfnod hir o amser. Gall effeithiau tirlenwi hefyd gynnwys halogi a thrwytholchi, er bod safleoedd tirlenwi cyfoes wedi eu dylunio i leihau'r effeithiau hyn.

Er mwyn goleuo penderfynu a ddylid ystyried yr opsiwn hwn drwy ymgynghori ymhellach, byddem yn croesawu barn a thystiolaeth ar a fyddai ehangu ETS y DU i gynnwys tirlenwi'n ymarferol ac yn creu cymhelliad effeithiol i ddatgarboneiddio. Nodwn y gallai allyriadau tirlenwi gael eu cynnwys yn ETS y DU, a threthi tirlenwi gael eu codi hefyd, ac y gallai'r ddau beth gyd-fodoli.

## Rôl polisïau gwastraff ehangach mewn rheoli risg tirlenwi

Ynghyd â threthi tirlenwi, mae ystod o bolisïau eraill a ddyluniwyd i gynorthwyo i reoli adnoddau a gwastraff yn gynaliadwy'n unol â'r hierarchaeth wastraff. Mae'r rhain yn cynnwys y Dreth draws-DU ar Becynnu Plastig i geisio annog defnyddio pecynnu plastig wedi'i ailgylchu yn lle pecynnu newydd. Dyluniwyd y Dreth Pecynnu Plastig i greu mwy o alw am blastig wedi'i ailgylchu a hyn, yn ei dro, yn ysgogi mwy o ailgylchu a chasglu gwastraff plastig, gan ei arallgyfeirio o gael ei dirlenwi neu losgi.

Disgwylir i ddiwygiadau Casglu a Phecynnu gan Defra arwain at gynnydd sylweddol mewn ailgylchu deunyddiau targed yn Lloegr dros y 10-15 mlynedd nesaf. Disgwylir i'r diwygiadau hyn gael Lloegr i hanner ffordd tuag at gyrraedd y targed o fwy neu lai haneru gwastraff gweddilliol (ac eithrio gwastraff mwynau mawr) a gynhyrchir gan bob person erbyn 2042[20]. Bydd gweddill y lleihad yn cael ei ddarparu drwy ddatblygu polisïau ychwanegol yn adlewyrchu'r cyfuniad o fesurau fydd eu hangen i symud gwastraff i fyny'r hierarchaeth wastraff.

Yng Nghymru, mae targedau ailgylchu statudol ar gyfer awdurdodau lleol yn gyrru lleihad mewn faint o wastraff trefol gweddilliol a anfonir i'w losgi a'i dirlenwi. Bydd rheoliadau newydd 2023 ar gyfer Ailgylchu yn y Gweithle, a ddaw i rym ar 6 Ebrill 2024, hefyd yn lleihau faint o wastraff gweddilliol o safleoedd annomestig sy'n cael ei anfon i'w losgi a'i dirlenwi. Mae yna hefyd waharddiad ar losgi a thirlenwi gwastraff ailgylchadwy penodol sy'n cael ei gasglu ar wahân, gan gynnwys gwastraff plastig, papur, cardbord a bwyd, a gwastraff tecstiliau ac offer trydanol ac electronig bach heb eu gwerthu. Bydd pob gwastraff pren yn cael ei wahardd o dirlenwi o'r 6 Ebrill 2024 ymlaen. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod nod o ddim gwastraff gweddilliol erbyn 2050.

[20] Cynllun Gwella Amgylcheddol Defra 2023. https://www.gov.uk/government/publications/environmental-improvement-plan

Mae Map Llwybr Gwastraff ac Economi Gylchol yr Alban, y bydd ymgynghori arno'n fuan yn 2024[21], yn disgrifio'r camau blaenoriaeth rhwng rŵan a 2030 i gyflymu defnyddio adnoddau'n fwy cynaliadwy ar draws yr hierarchaeth wastraff. Bydd y camau hyn yn lleihau faint o wastraff gweddilliol a gynhyrchir a thrwy hynny faint a anfonir i gael ei dirlenwi a'i losgi. Hefyd, bydd tirlenwi gwastraff trefol bioddiraddadwy'n cael ei wahardd yn yr Alban o'r 31 Rhagfyr 2025 ymlaen, gan liniaru'n uniongyrchol peth o'r risg y gallai ETS y DU arwain at dirlenwi mwy o wastraff. Mae Llywodraeth yr Alban hefyd wedi ymrwymo i ymestyn y gwaharddiad hwn i gynnwys gwastraff bioddiraddadwy annhrefol, ar ôl ymgynghori'n briodol a rhoi sicrwydd ynghylch rhai ffrydiau gwastraff penodol.

Yng Ngogledd Iwerddon, mae astudiaeth ymarferoldeb wrthi'n cael ei gwneud ar y posibilrwydd o wahardd neu gyfyngu ar dirlenwi gwastraff bioddiraddadwy.

## Allforio Tanwydd o Sbwriel a Thanwydd o Solidau

Er bod Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon i gyd wedi ymrwymo i reoli gymaint o'u gwastraff eu hunain â phosibl, deallwn y gallai fod angen i ychydig o allforio barhau i fod yn rhan o'r strategaethau rheoli gwastraff yn y tymor byr i ganolig, yn enwedig mewn ardaloedd heb fynediad at gyfleusterau llosgi gwastraff domestig ar hyn o bryd. Fodd bynnag, deallwn hefyd y gallai allforio mwy o wastraff dramor effeithio ar y cymhelliad i ddatgarboneiddio ar gyfer sector gwastraff y DU.

Hoffai Awdurdod ETS y DU drafod y posibilrwydd o weithredu unrhyw fesurau lliniaru a fyddai'n golygu bod allforio RDF/SRF yn parhau i fod yn opsiwn. Mae'r DU yn parchu ein hymrwymiad i fasnach rydd ac agored a'n hymrwymiadau newid hinsawdd rhyngwladol, ac anghenion diwydiant a defnyddwyr. Byddwn felly'n sicrhau y bydd unrhyw fesurau a weithredir yn cydymffurfio â'n gofynion rhyngwladol, gan gynnwys ymrwymiadau Sefydliad Masnach y Byd (WTO) a chytundebau masnach.

Mae Awdurdod ETS y DU wedi ystyried datblygu treth ar allforio RDF/SRF neu waharddiad llwyr, fel yr awgrymodd rai rhanddeiliaid wrth ymateb i alwad am dystiolaeth 2022. Nodwn fod rhai o gytundebau masnach rydd y DU efallai'n gwahardd codi trethi allforio mewn rhai amgylchiadau ac mae gwaith yn cael ei wneud i adnabod y cytundebau hyn. Nodwn hefyd y byddai gwaharddiad ar allforio'n gwrthdaro â'n nod o sicrhau bod allforio RDF/SRF yn parhau i fod yn opsiwn lle bo angen.

Opsiwn arall yr ydym wedi'i adnabod yw defnyddio systemau trwyddedu / caniatâd i ddylanwadu ar lif yr allforion RDF/SRF. Byddem yn gallu cyfyngu ar faint o drwyddedau a roddir i allforio'r mathau hyn o wastraff. Fodd bynnag gallai hyn fod yn anodd ei weithredu o safbwynt rheoleiddio a cheisio dyrannu trwyddedau'n deg ymhlith allforwyr. Neu gellid codi tâl drwy neu ochr yn ochr â'r gofynion trwyddedu / caniatâd presennol, a allai fod yn dâl penodedig neu amrywiol. Nodwn fod taliadau'n cael eu codi eisoes ar allforwyr RDF / SRF drwy fesurau hysbysu o dan Reoliadau Cludo Gwastraff Ar Draws Ffiniau 2007[22], sy'n cael eu codi i dalu am gostau gweinyddol y rheoleiddwyr. Nodwn fod sut fydd y mesurau hyn yn cyd-fynd â rheolau masnach ryngwladol wrthi'n cael ei asesu.

Rydym yn cydnabod bod polisïau domestig eraill sydd wrthi'n cael eu datblygu a fyddai'n helpu i osgoi'r risg yma, fel yr ymgynghoriad ar wahardd allforion gwastraff plastig di-OECD gan

[21] Ymgynghoriad Llywodraeth yr Alban ar eu Map Llwybr Gwastraff a'r Economi Gylchol 2024 (Drafft) https://consult.gov.scot/zero-waste-delivery/draft-circular-economy-and-waste-route-map

[22] Rheoliadau Cludo Gwastraff ar Draws Ffiniau 2007. https://www.legislation.gov.uk/uksi/2007/1711/contents/made

Defra. Hefyd, bydd cynigion Senedd yr Undeb Ewropeaidd i ehangu ETS yr UE i gynnwys cyfleusterau llosgi gwastraff fel rhan o'u pecyn 'Addas ar gyfer 55' yn dylanwadu'n sylweddol ar lif allforion RDF/SRF. Byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau gyda'r polisïau hyn.

**Cwestiynau:**

36. **Ydych chi'n disgwyl i ffioedd tipio am losgi gwastraff fynd yn ddrytach na thirlenwi neu allforio o ganlyniad i ehangu ETS y DU? Ydy'r disgwyl hwn yr un fath ar gyfer pob math o ddeunydd a rhanbarth? Rhowch dystiolaeth i gefnogi eich ateb os gwelwch yn dda.**

37. **Pe bai ffioedd tipio am losgi gwastraff yn dod yn gymharol ddrytach, gyda ffactorau nad ydynt yn ymwneud â phrisiau yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau rheoli a gwaredu gwastraff, pa mor fawr yw'r risg y byddai gwastraff yn cael ei arallgyfeirio i lawr yr hierarchaeth i gael ei allforio neu dirlenwi?**

38. **O ystyried y manteision a'r trafferthion posibl a allai godi, ydych chi'n meddwl y dylid ystyried ehangu ETS y DU i gynnwys tirlenwi er mwyn gwarchod y risg o arallgyfeirio gwastraff o gael ei losgi i gael ei dirlenwi? (Y/N). Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.**

39. **Ydych chi'n meddwl y dylid ystyried opsiynau eraill ar gyfer rheoli'r risg o dirlenwi? Os ydych, rhowch fanylion pellach am ba opsiynau a pham.**

40. **Ydych chi'n meddwl y byddai unrhyw un o'r opsiynau uchod i osgoi'r risg o dirlenwi'n arwain at ganlyniadau anfwriadol? (Y/N). Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.**

41. **Beth fyddai'r ffordd fwyaf effeithiol o liniaru'r risg o arallgyfeirio gwastraff o gael ei losgi i gael ei allforio fel RDF/SRF? Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.**

42. **Ydych chi'n meddwl y byddai cyfyngu ar faint o drwyddedau / caniatadau allforio RDF/SRF a roddir yn ffordd effeithiol o leihau'r risg o arallgyfeirio gwastraff o gael ei losgi i gael ei allforio dramor? (Y/N). Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.**

43. **Ydych chi'n meddwl y byddai codi tâl trwydded / caniatâd ar allforion RDF/SRF yn ffordd effeithiol o leihau'r risg o arallgyfeirio gwastraff o gael ei losgi i gael ei allforio dramor? (Y/N). Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.**

44. **Ai tâl penodedig neu amrywiol fyddai fwyaf effeithiol i reoli'r risg yma? Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.**

45. **Pe byddem yn symud ymlaen i ddatblygu tâl amrywiol:**

    **a) A fyddai'n ddigonol bod y tâl yn adlewyrchu pris carbon ETS y DU?**

    **b) A fyddai angen, wrth gyfrifo'r tâl, ystyried y pris carbon (os byddai un) yn y wlad y byddai allforion RDF/SRF yn cael eu hanfon iddi?**

**c) Pa mor aml fyddai angen diweddaru taliadau amrywiol?**

46. **Ydych chi'n meddwl y dylid ystyried opsiynau eraill ar gyfer rheoli'r risg o allforio RDF/SRF? (Y/N). Os ydych, rhowch fanylion pellach am ba opsiynau a pham.**

47. **Ydych chi'n meddwl y gallai unrhyw opsiwn i liniaru'r risg o allforio RDF/SRF arwain at ganlyniadau anfwriadol? (Y/N). Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.**

## Llwybrau datgarboneiddio

Oherwydd cymalau newid cymwys yn y gyfraith (QCIL) yng nghontractau cwsmeriaid, gallai costau ETS y DU, gan ddibynnu ar yr union drefniadau cytundebol, gael eu pasio o'r gweithredwr i'w cwsmeriaid, yn cynnwys cwsmeriaid masnachol ac awdurdodau lleol. Oherwydd mai'r gweithredwr a fyddai angen prynu ac ildio lwfansau, ni fyddai unrhyw wahaniaeth yn y pris carbon i gwsmeriaid masnachol o'i gymharu â'r sector cyhoeddus am bob tunnell o garbon a fyddai'n cael ei allyrru. Fodd bynnag, deallwn mai awdurdodau lleol yw cwsmeriaid mwyaf cyfleusterau llosgi gwastraff a bod ganddynt, yn aml, gontractau hirdymor a helpodd y cyfleusterau hyn i sefydlu.

Gallai holl gwsmeriaid cyfleusterau llosgi gwastraff fod yn llai atebol i dalu'r pris carbon drwy ymgysylltu a chyfranogi mewn gweithgareddau datgarboneiddio. Mae'r adran yma'n disgrifio llwybrau datgarboneiddio, sut y gallai rhai o gostau ETS y DU gael eu pasio'n ôl i gynhyrchwyr cyfran o'r deunyddiau gwastraff, a'r camau y byddwn yn eu cymryd i ystyried pa gymorth i'w roi i awdurdodau lleol.

I gefnogi'r broses hon, bydd yr Awdurdod yn gweithio'n agos â'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau ac ar draws Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban ac Adran Amaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon i asesu effaith ariannol ETS y DU ar y sector llywodraeth leol. Nodwn fod cyfleoedd i ddatgarboneiddio'n amrywio ar draws y DU, ac o fewn y gwledydd hefyd, a byddwn yn ystyried hyn wrth lunio ein polisïau yn y dyfodol. Byddwn yn gwneud Asesiadau Beichiau Newydd gan sicrhau bod unrhyw effaith ariannol debygol ar ETS y DU ar y sector llywodraeth leol yn cael ei hasesu. Mae disgwyliadau tebyg yng Nghymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Fodd bynnag, dylid nodi mai nod yr Awdurdod yw bod unrhyw gymorth i awdurdodau lleol yn cael ei roi ar ffurf sy'n cadw'r cymhelliad i ddatgarboneiddio.

### Polisïau a gweithgareddau datgarboneiddio ar gyfer awdurdodau lleol

Byddai ehangu ETS y DU i gynnwys cyfleusterau llosgi gwastraff yn creu cymhelliad i ddatblygu a defnyddio technolegau ac arferion datgarboneiddio er mwyn lleihau allyriadau. Bydd yr Awdurdod hefyd yn sicrhau bod ehangu ETS y DU i gynnwys cyfleusterau llosgi gwastraff yn gyson â'r polisïau gwastraff ac amgylcheddol presennol, a rhai ar y gweill, sy'n effeithio ar awdurdodau lleol a llosgwyr gwastraff. Ar draws y DU mae cyfres o fesurau treth amgylcheddol, fel y Dreth Pecynnu Plastig, sy'n gweithio gyda pholisïau anghyllidol i gefnogi'r amcanion amgylcheddol uchelgeisiol ar draws y Deyrnas Unedig.

Disgwylir y bydd polisïau 'cynhyrchu cynnar' fel y rhai yn Strategaeth Adnoddau a Gwastraff Lloegr, Strategaeth Mwy nag Ailgylchu Cymru, Strategaeth Rheoli Gwastraff Gogledd Iwerddon, a Map Llwybr Gwastraff ac Economi Gylchol yr Alban, yn effeithio ar sut y rheolwn adnoddau ar draws y sector gwastraff. Dyluniwyd y polisïau hyn i symud gwastraff yn uwch i fyny'r hierarchaeth wastraff gan felly leihau faint o wastraff ffosil (hynny yw, gwastraff a dynnir

allan o danwydd ffosil) sy'n cael ei anfon i gael ei losgi, lleihau allyriadau a thrwy hynny faint o bris carbon y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei dalu.

Disgwylir i ddiwygiadau casglu a phecynnu ar draws y DU arwain at gynnydd sylweddol mewn ailgylchu deunyddiau targed dros y 10-15 mlynedd nesaf, ac yn Lloegr bydd y diwygiadau hyn yn ein cael hanner ffordd tuag at ein targed o haneru faint o wastraff gweddilliol (ac eithrio gwastraff mwynau mawr) a gynhyrchir gan bob person erbyn 2042, yn unol â Chynllun Gwella Amgylcheddol y llywodraeth a gyhoeddwyd yn Ionawr 2023.[23] Mae amrediad eang o bolisïau ar gael i gwrdd â gweddill y lleihad sydd ei angen a byddwn yn ystyried a datblygu polisïau ychwanegol dros y blynyddoedd nesaf.

Mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wedi ymrwymo i gyd-gynllunio ar gyfer gweithredu ETS y DU yn y sector hwn erbyn 2028, yn benodol drwy ganolbwyntio ar wastraff o danwydd ffosil sydd heb lwybr datgarboneiddio na dull adennill costau ar hyn o bryd. Bydd yr Awdurdod yn cynnwys y canfyddiadau yn ei ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad hwn. Bydd union gyfansoddiad unrhyw lwybrau polisi ar draws y Deyrnas Unedig yn y dyfodol yn amrywio yn ôl penderfyniadau a wneir o dan gymhwysedd datganoledig a gallai gynnwys mesurau traws-DU a gwlad-benodol.

Lle bo angen, bydd yr Awdurdod yn darparu canllawiau i gefnogi gweithgareddau datgarboneiddio a manylion am gyfleoedd cyllido ehangach. Gobeithiwn gynhyrchu'r canllawiau hyn cyn y cyfnod pontio MRV yn unig o 2026 ymlaen, a'u diwygio lle bo angen i adlewyrchu'r tirlun polisïau datgarboneiddio, pan ddaw'r cyfnod pontio i ben ar 31 Rhagfyr 2017. Rhoddir mwy o fanylion am ganllawiau o dan 'Cymryd Rhan yn y Cynllun'.

Mae Map Llwybr Gwastraff ac Economi Gylchol yr Alban, sy'n destun ymgynghori ar hyn o bryd[24], yn disgrifio'r camau blaenoriaeth rhwng rŵan a 2030 i gyflymu defnyddio adnoddau'n fwy cynaliadwy ar draws yr hierarchaeth wastraff. Bydd y rhain yn helpu i leihau faint o wastraff a gynhyrchir, yn datgarboneiddio'r sector gwastraff ac yn hwyluso cyd-ddylunio gwasanaethau ailgylchu ac ailddefnyddio gwastraff tra effeithiol i aelwydydd drwy drafod ag aelwydydd COSLA, awdurdodau lleol a gweithredwyr gwasanaethau.

Mae awdurdodau lleol yn chwarae rôl bwysig a neilltuol mewn lleihau allyriadau lleol, a chyflawni targedau sero-net a hinsawdd, gan gynnwys drwy gasglu a rheoli gwastraff ffosil. Mae gweithgareddau datgarboneiddio awdurdodau lleol yn cynnwys arferion rheoli gwastraff cynaliadwy fel ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth i leihau faint o wastraff ffosil sy'n ymuno â'r ffrwd wastraff, trefnu i gasglu gwahanol ddeunyddiau gan gynnwys i'w hailgylchu, a defnyddio cymysgedd o dechnoleg didol gwastraff cyn llosgi i dynnu'r deunyddiau ailgylchu allan.

Mae rhai rhanddeiliaid wedi argymell y byddai gadael i awdurdodau lleol fidio am gyllid ar gyfer gweithgareddau datgarboneiddio penodol yn gymhelliad gwell i leihau eu gwastraff ffosil. Rydym yn awyddus i ddeall yn well y gweithgareddau datgarboneiddio sydd ar gael i awdurdodau lleol, ar wahân i'r gweithgareddau a'r arferion a ddisgrifiwn uchod, a deall eu heffaith bosibl.

## Technoleg datgarboneiddio ar gyfer y sector gwastraff ehangach

Rydym yn cydnabod bod angen cyfres gynhwysfawr o bolisïau'n cynnwys cyllid, rheoleiddio a phris carbon i sicrhau datgarboneiddio. Mae hefyd angen cyflymu'r defnydd a wneir o

[23] Defra, Cynllun Gwella Amgylcheddol 2023: https://www.gov.uk/government/publications/environmental-improvement-plan

[24] Ymgynghoriad Llywodraeth yr Alban ar eu Map Llwybr Gwastraff a'r Economi Gylchol 2024 (Drafft) https://consult.gov.scot/zero-waste-delivery/draft-circular-economy-and-waste-route-map

dechnolegau arloesol fel Dal a Storio Carbon (CCS) ar draws y sector gwastraff ehangach yn y DU. Mae dylunio modelau Dal Carbon Diwydiannol ar gyfer defnyddwyr diwydiannol gydag opsiynau hyfyw prin er mwyn sicrhau datgarboneiddio 'dwfn' yn creu cymhelliad i ddefnyddio technoleg dal carbon. Mae amrywiad penodol ar y contract cymorth refeniw ar gyfer prosiectau CCS rheoli gwastraff llwyddiannus, sef y 'Contract ICC Gwastraff'[25].

Derbyniwn ba mor bwysig yw CCS i safleoedd EfW heb fynediad at biblinellau CCS a nodwn yr ansicrwydd presennol gyda gweithredu ac amserlen gyllido Clwstwr yr Alban, gan gynnwys y meini prawf i brosiectau allyrru a chyfnodau pellach o ehangu storio a'r rhwydwaith er mwyn gweithredu prosiectau Trafnidiaeth Di-Biblinell (NPT). Mae ETS y DU wedi ymrwymo i gydnabod NPT drwy ganiatáu i gyfranogwyr UK ETS a fydd yn defnyddio dulliau NPT at ddibenion storio CO2 i dynnu carbon a bydd yn ymgynghori maes o law ar sut y caiff hyn ei integreiddio i fframwaith ETS y DU. Fodd bynnag, derbyniwn fod y dechnoleg yn gymharol newydd a bod mynediad at y dechnoleg yn amrywio ar draws y DU ac na fydd pob safle llosgi gwastraff presennol yn gallu gosod CCS. Byddwn felly'n parhau i adolygu datblygiad technoleg dal a storio carbon wrth i'r diwydiant aeddfedu.

Fel y nodir yn 'ETS y DU a Rhwydweithiau Gwres – Galwad am Dystiolaeth', rydym yn holi barn am gymhellion i allforio gwres. Rydym yn disgwyl i unrhyw gymhelliad ostwng costau ETS y DU i'r cyfleusterau hyn gyda'r arbedion cost, yn eu tro, efallai'n cael eu pasio'n ôl i gwsmer y cyfleusterau'n unol â'r trefniadau cytundebol. Gallai cymhellion i rag-brynu / rhag-werthu gwres mewn cyfleusterau llosgi gwastraff felly leihau costau ymhellach i gwsmeriaid.

Deallwn y bydd efallai angen i gwsmeriaid dalu am gostau technoleg datgarboneiddio, fel didol gwastraff cymysg a CCS, a fyddai'n cael eu gosod mewn cyfleusterau llosgi gwastraff. Ar y llaw arall, gwyddom y gallai unrhyw arbedion cost neu elw a wneir drwy'r technolegau datgarboneiddio hyn gael eu pasio'n ôl i'r cwsmer. Byddem yn croesawu unrhyw dystiolaeth o gostau, arbedion ac elw posibl a allai gael ei gynhyrchu a'i basio i gwsmeriaid o fuddsoddi yn y technolegau hyn.

## Pasio costau ymlaen i gynhyrchwyr

Cynigiwn gysoni ETS y DU â'r pEPR fel bod y pris carbon yn cael ei ystyried fel rhan o broses adennill costau'r cynllun pEPR.Mae hyn yn golygu y bydd y taliadau i awdurdodau lleol am reoli deunyddiau 'o fewn cwmpas' y pEPR yn cynnwys costau ETS y DU, os yw llosgi'n ddull priodol o waredu pecynnu gwastraff. Mae'r pEPR wedi'i ddylunio i wella effeithlonrwydd drwy roi'r cyfrifoldeb ar fusnesau am effaith eu pecynnu ar yr amgylchedd. Pwrpas hyn fydd cymell defnyddio pecynnu'n briodol a defnyddio pecynnu y gellir ei ailgylchu a'i ailddefnyddio ynghyd ag annog mwy o ailbrosesu domestig, gwelliannau i'r system ac arbedion. Bydd hyn, yn ei dro, yn lleihau faint o wastraff ffosil sy'n ymuno â'r ffrwd gwastraff gweddilliol a chyfleusterau llosgi gwastraff, gan felly leihau faint o bris carbon fydd awdurdodau lleol yn gorfod ei dalu.

Ein hamcangyfrif presennol yw bod rhwng 20-30% o wastraff ffosil yn ôl pwysau a losgir o fewn cwmpas y pEPR, a gallai'r pris carbon am tua 20-30% o wastraff yn ôl pwysau sy'n cael ei dderbyn gan awdurdodau lleol gael ei dalu amdano gan daliadau'r pEPR. Bydd casgliadau gorfodol o blastigau hyblyg gan aelwydydd, i'w hailgylchu o dan y pEPR, hefyd yn lleihau'r ganran o wastraff ffosil sy'n ymuno â'r ffrwd gwastraff gweddilliol a chyfleusterau llosgi gwastraff.

[25] https://www.gov.uk/government/publications/carbon-capture-usage-and-storage-ccus-business-models

Rydym yn cydnabod bod y gwaith o gyflwyno'r cynllun pEPR yn parhau ac y cafwyd ymgynghori diweddar[26] ar reoliadau drafft ar gyfer y pEPR ar draws y DU. Byddwn yn parhau i weithio'n gydgysylltiedig i gysylltu ETS y DU â'r pEPR. Gwyddom hefyd fod nifer o ffrydiau gwastraff sydd y tu allan i gwmpas y pEPR ac felly na fydd y system pasio costau ymlaen yma'n effeithio arnynt.

## Cymorth i Awdurdodau Lleol

Mae awdurdodau lleol a llywodraethau canolog yn rhannu nod cyffredin o ddarparu sero-net. Mae awdurdodau lleol wedi dangos eu hymrwymiad cyson i ddatblygu eu polisïau hinsawdd, i ddatgarboneiddio ac i gefnogi'r llwybr at sero-net.

Mae Llywodraeth y DU yn ystyried y broses o roi cymorth i awdurdodau lleol yn Lloegr unwaith fydd cyfleusterau llosgi gwastraff wedi eu cynnwys yn ETS y DU nes y bydd ganddynt lwybrau datgarboneiddio yn eu lle. Mae hyn yn cynnwys ystyried y pwysau a ddaw o ehangu ETS y DU yng nghylch nesaf yr Adolygiad o Wariant. Bydd Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn parhau i gael eu hariannu'n unol â'r Datganiad o Bolisi Ariannu a bydd Llywodraeth y DU yn parhau i weithio gyda nhw yn ystod y broses hon. Byddwn hefyd yn gweithio i gadw'r cymhelliad i ddatgarboneiddio, sy'n ganolog i ETS y DU, ac i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r targedau allyriadau sero-net.

Bydd y pedair gweinyddiaeth yn parhau i weithio ac ymgysylltu â'r sector llywodraeth leol i sicrhau bod y mesurau lliniaru hyn yn ddigon o gynorthwyo'r sector llosgi gwastraff i ddatgarboneiddio ac i sicrhau cydbwysedd teg o gyfraniadau gan y sectorau preifat a chyhoeddus i'r broses o bontio at sero-net.

**Cwestiynau:**

48. **Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau datgarboneiddio uchod ar gyfer cyfleusterau llosgi gwastraff? (Y/N). Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb, gan gynnwys gwybodaeth am allu awdurdodau lleol a / neu weithredwyr llosgi gwastraff i ddilyn y llwybrau datgarboneiddio hyn. Rhowch hefyd unrhyw wybodaeth am weithgareddau neu lwybrau datgarboneiddio eraill sydd ar gael i awdurdodau lleol a / neu weithredwyr llosgi gwastraff.**

49. **A oes gennych unrhyw dystiolaeth o'r costau, arbedion ac elw posibl a allai gael ei gynhyrchu o dechnoleg datgarboneiddio fel CCS a rhwydweithiau gwres? (O/N). Os oes, rhowch fanylion pellach os gwelwch yn dda. Byddem yn croesawu'n arbennig unrhyw dystiolaeth ar gyfer cyfnod cytundebol cyfan a / neu oes y cyfleuster.**

50. **A oes gennych unrhyw sylwadau ar arbedion cost o dechnoleg datgarboneiddio fel CCS a rhwydweithiau gwres ac a fydd y rhain yn cael eu pasio'n ôl i gwsmeriaid, gan gynnwys awdurdodau lleol.**

51. **Ydych chi'n cytuno bod angen canllawiau ar ddatgarboneiddio i awdurdodau lleol a gweithredwyr llosgi gwastraff? (Y/N). Rhowch fanylion**

[26] https://www.gov.uk/government/consultations/draft-producer-responsibility-obligations-packaging-and-packaging-waste-regulations

**pellach i gefnogi eich ateb, gan gynnwys unrhyw wybodaeth am y math, ffurf, a chynnwys y canllawiau sydd eu hangen.**

52. **Ar wahân i'r dulliau a restrir uchod, a oes unrhyw ddull(iau) eraill y byddech yn eu hargymell i gynorthwyo awdurdodau lleol i ddatgarboneiddio? (Y/N). Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb, gan gynnwys unrhyw wybodaeth am y math o ddull(iau) cymorth sy'n cael eu hargymell a'r math o ddeunyddiau a allai ddisgyn y tu allan i gwmpas y dulliau cymorth a gynigir uchod.**

## Dyrannu pasio costau ymlaen yn gywir

Mae'r Awdurdod yn deall y bydd pasio costau ymlaen yn debygol iawn o ddigwydd rhwng gweithredwyr llosgi gwastraff a'u cwsmeriaid oherwydd y cymalau newid cymwys yn y gyfraith (QCiL) mewn contractau, er y bydd hyn yn dibynnu ar union dermau'r contractau hynny.

Deallwn ba mor bwysig yw dyrannu cynnwys ffosil a chostau ETS y DU yn gywir rhwng gwahanol gwsmeriaid mewn cyfleusterau sy'n derbyn gwastraff o wahanol ffynonellau, i adlewyrchu ymdrechion i leihau allyriadau ac ailgylchu, oherwydd bydd hyn yn annog a gwobrwyo lleihau cynnwys ffosil mewn gwastraff gweddilliol. Rydym felly'n ymgynghori ar opsiynau i basio'r gost ymlaen.

Nodwn y bydd yr Awdurdod yn cefnogi hyn drwy gyflwyno canllawiau oherwydd deallwn y bydd unrhyw ddarpariaethau'n dibynnu ar gyd-destun penodol y gweithredwr a'r cwsmer (ee y gall y gweithredwr gasglu a dadansoddi samplau).

### Opsiwn 1 - Samplo

Rydym wedi ystyried samplo a dadansoddi deunyddiau crai fel dull o gynorthwyo i basio costau ymlaen yn gywir. Fel rhan o hyn, rydym wedi adolygu'r gofynion presennol ar gyfer samplo a didol gwastraff â llaw mewn Cyfleusterau Adfer Deunyddiau (MRF), i asesu maint ac ansawdd y deunyddiau ailgylchu a dderbyniwyd gan wahanol gyflenwyr.

Rydym wedi adnabod dulliau dadansoddi samplau a allai gael eu defnyddio i benderfynu'r rhaniad rhwng cyfansoddiad ffosil a biogenaidd y samplau gwastraff, sy'n gorgyffwrdd â'n gwaith ehangach o ddatblygu cynigion ar gyfer gofynion monitro ac adrodd o dan y cynllun. Mae'r dulliau hyn yn cynnwys didol â llaw, hydoddi dethol, a dadansoddi carbon-14 pen-blaen.

Lleisiodd rai rhanddeiliaid bryderon am samplo fel dull cyffredinol, ac am y dulliau dadansoddi a gynigiwyd. Mae'r rhain yn cynnwys heriau logistaidd oherwydd strwythur y sector (ee ble y dylai'r samplo ddigwydd o gofio'r gwahanol gamau wrth gludo gwastraff o gwsmeriaid i gyfleusterau), y risg bosibl i ddiogelwch (yn enwedig os yw deunyddiau peryglus neu glinigol yn cael eu trin), y posibilrwydd o wall dynol a cham-drin deunyddiau, a thrafferthion yn penderfynu ar feintiau samplau priodol a pha mor aml i'w casglu er mwyn rhoi canlyniadau gyda lefel foddhaol o sicrwydd. Rydym yn ymrwymedig i ddeall pa mor sylweddol yw'r heriau hyn a sut y gellid eu datrys.

Gyda'r pryderon hyn mewn cof, rydym yn ystyried a ddylid datblygu dulliau eraill o ddadansoddi samplau i gynorthwyo pasio costau ymlaen yn gywir, gan gynnwys dull ffactorau cyfrifo diofyn a awgrymwyd gan rai rhanddeiliaid.

### Opsiwn 2 – Dull ffactorau cyfrifo diofyn

Mae dull ffactorau cyfrifo diofyn yn golygu datblygu ffigurau sy'n rhoi amcangyfrif o'r rhaniad rhwng gwastraff ffosil a biogenaidd. Gellid datblygu'r ffigurau hyn ar wahanol raddfeydd (ee gwladol, rhanbarthol neu ar lefel cwsmer) cyn eu lluosi â chyfradd llif màs y gwastraff a fyddai'n cyrraedd cyfleusterau llosgi gwastraff gan gyflenwyr gwastraff unigol. Byddai canlyniadau'r cyfrifiadau hyn yn amcan-fesuriad o faint o wastraff ffosil a biogenaidd a dderbyniwyd, ac yna'n cael eu defnyddio gan weithredwyr i benderfynu faint o gost ETS y DU i'w phasio ymlaen drwy atebolrwydd eu cwsmeriaid.

Rydym yn ymwybodol y byddai dull ffactorau cyfrifo diofyn na fyddai'n rhoi cyfrif am ymdrechion cyflenwyr gwastraff unigol i leihau cynnwys ffosil eu gwastraff cymysg yn lleihau cymhellion pwysig i ddatgarboneiddio. Rydym wedi ystyried sut y gellid cadw'r cymhellion hyn mewn mesurau o'r fath, er enghraifft drwy ystyried dangosyddion KPI rheoli gwastraff wrth gyfrifo unrhyw ffactorau a briodolir i gwsmeriaid penodol. Fel rhan o hyn, rydym yn gweithio â Defra wrth iddynt ddatblygu eu taliadau pEPR, gyda'r nod o wobrwyo awdurdodau lleol sy'n perfformio'n well ar draws gwahanol ddangosyddion gydag ad-daliadau uwch.

### Opsiwn 3 – Dull graddol a chyfunol

Rydym hefyd yn ystyried a ddylid cael dull graddol o gyflwyno dulliau ar gyfer pasio costau ymlaen. Gallai hyn gynnwys dull symlach yng nghamau cynnar y cynllun dros y cyfnod MRV o 2026 ymlaen, ac yna o 2028 ymlaen gallai gweithredwyr a chwsmeriaid weithio gyda'i gilydd i ddatblygu dulliau mwy cywir. Credwn y byddai cyflwyno'r gofynion yn raddol fel hyn yn rhoi mwy o amser er mwyn gallu ystyried y gwersi a ddysgir o'r cyfnod MRV yn unig wrth ddatblygu dulliau mwy cywir.

**Cwestiynau:**

53. **Ydych chi'n meddwl y byddai samplo (ee gofynion MRF) yn ffordd effeithiol o gynorthwyo pasio costau ymlaen yn gywir o weithredwyr EfW i gwsmeriaid? (Y/N) Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.**

54. **Ydych chi'n meddwl y byddai'r technegau dadansoddi samplau a ddisgrifiwyd (ee didol â llaw, hydoddi dethol, a charbon-14) yn cynorthwyo'n effeithiol i basio costau ymlaen yn gywir? (Y/N) Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.**

55. **Ydych chi'n meddwl y dylid ystyried dulliau eraill ar wahân i samplo, gan gynnwys ffactorau cyfrifo diofyn? (Y/N) Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.**

56. **Ydych chi'n meddwl y byddai dull graddol o ddatblygu'r dull pasio costau ymlaen yn ffordd ymarferol o symud ymlaen? (Y/N) Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.**

## Ystyriaethau cydraddoldeb

O dan ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus (PSED) (a149 Deddf Cydraddoldeb 2010), rhaid i awdurdodau cyhoeddus ystyried effaith polisïau neu benderfyniadau ar bobl a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Wrth ymarfer eu swyddogaethau, rhaid i awdurdodau cyhoeddus roi sylw dyledus i fod angen cyflawni'r amcanion a ddisgrifir yn a149 Deddf Cydraddoldeb 2010:

(a) dileu gwahaniaethu, harasio, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan neu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010;

(b) hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd berthnasol a warchodir a phobl nad ydynt yn rhannu'r nodwedd hon;

(c) meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd berthnasol a warchodir a phobl nad ydynt yn rhannu'r nodwedd hon.

Gwnaethom ddadansoddiad PSED o gymhwyso cynllun ETS y DU i losgi gwastraff heb adnabod unrhyw wahaniaethu, harasio nac erledigaeth anghyfreithlon nac ymddygiad arall a waherddir o dan Ddeddf 2010 yn y polisïau hyn. Byddwn yn parhau i gasglu tystiolaeth drwy'r broses ymgynghori ac yn parhau i adolygu'r ystyriaethau hyn.

### Cwestiynau:

**Ydych chi'n ystyried y bydd cymhwyso ETS y DU i losgi gwastraff yn arwain at unrhyw effeithiau i grwpiau gyda nodweddion a warchodir, o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010? Ydych chi'n meddwl bod unrhyw ystyriaethau cydraddoldeb eraill?**

**57. Ydych chi'n ystyried y gellid dylunio unrhyw agwedd ar ehangu ETS y DU i gynnwys llosgi gwastraff i hyrwyddo cyfle cyfartal a / neu feithrin cysylltiadau da?**

# ETS y DU a rhwydweithiau gwres – galwad am dystiolaeth

## Cymhellion ar gyfer rhwydweithiau gwres

Mae’r Awdurdod yn cydnabod y gallai ETS y DU gymell cyfranogwyr newydd a phresennol, gan gynnwys cyfleusterau llosgi gwastraff, i allforio gwres drwy rwydweithiau gwres. Mae rhwydweithiau gwres yn cyflenwi gwres o ffynhonnell ganolog i gwsmeriaid a helpu i leihau allyriadau o wresogi adeiladau domestig a masnachol.

Mae ETS y DU eisoes yn rhoi peth cymhelliad i rai cyfranogwyr drwy Lwfansau Am Ddim i osodiadau sy’n allforio neu ddefnyddio gwres, gan gydnabod yr arbedion allyriadau o ailddefnyddio gwres gwastraff a rôl allforio gwres mewn pontio at sero-net. Fodd bynnag, yn 2021 lansiodd yr Awdurdod adolygiad o’r polisi dyrannu am ddim drwy alwad am dystiolaeth o ddyrannu am ddim drwy Gynllun Masnachu Allyriadau’r DU[27], i sicrhau bod y polisi dyrannu am ddim yn gweithio’n effeithiol yng nghyd-destun y DU o ran bod yn gymhelliad i leihau allyriadau a thargedu cymorth yn well at sectorau sy’n cyflwyno’r risg fwyaf o ddadleoli carbon.

Deallwn fod cyfle neilltuol i barhau i leihau rhai o’r rhwystrau sy’n wynebu cyfranogwyr ETS y DU sy’n awyddus i fuddsoddi mewn rhwydwaith gwres ac allforio neu ddefnyddio gwres. Gallai hyn fod yn berthnasol i bob sector o dan ETS y DU, gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i EfW, a chynnwys gwastraff a gwres dros ben, yn ogystal â gwres a gynhyrchir er mwyn ei allforio. Rydym yn awyddus i gymell ffynonellau gwres glân ac yn ystyried opsiynau i gymell rhag-brynu / rhag-werthu gwres drwy ETS y DU. Rydym hefyd yn cydnabod y byddai arbedion cost yn gysylltiedig â chynigion i gymell rhag-brynu / rhag-werthu gwres yn arwain at gostau is i rai cwsmeriaid gosodiadau ETS y DU, er enghraifft awdurdodau lleol fel cwsmeriaid cyfleusterau llosgi gwres sy’n allforio gwres.

Galwn felly am dystiolaeth ar sut i annog mwy ar weithredwyr sy’n rhan o ETS y DU i ddal, storio a defnyddio gwres dros ben neu wres gwastraff.

**Cwestiynau:**

58. **Ydych chi’n cytuno y dylid defnyddio ETS y DU i gefnogi rhag-brynu / rhag-werthu gwres drwy’r ETS? (Y/N) Rhowch eich rhesymau ynghyd â thystiolaeth i gefnogi eich barn os gwelwch yn dda.**

59. **A oes gennych farn am ba ddull cymhelliad (ee lwfansau am ddim, tynnu nifer o lwfansau allan o rwymedigaeth ETS y DU, ac ati) fyddai’n gweithio orau i annog allforio a defnyddio gwres? (O/N). Rhowch gymaint o fanylion â phosibl i gefnogi eich ateb.**

60. **Ydych chi’n meddwl y dylai polisïau i gymell rhag-brynu / rhag-werthu gwres fod yn berthnasol i wastraff dros ben neu wastraff yn ogystal â**

[27] https://www.gov.uk/government/calls-for-evidence/uk-emissions-trading-scheme-free-allocation-review-call-for-evidence

**gwres a gynhyrchir i'r pwrpas o'i allforio? (Y/N). Rhowch gymaint o fanylion â phosibl i gefnogi eich ateb.**

61. **Pe bai cymhelliad yn cael ei roi, sut ddylid penderfynu ar lefel y cymhelliad, ee a ddylai fod yn gysylltiedig ag allyriadau sy'n cael eu gwrthbwyso drwy allforio gwres, maint yr allyriadau a fyddai'n gysylltiedig â chynhyrchu gwres, ac ati? (Y/N) Rhowch gymaint o fanylion â phosibl i gefnogi eich ateb.**

62. **A oes gennych farn am a allai rhoi cymhelliad i rag-brynu / rhag-werthu gwres drwy ETS y DU gael unrhyw ganlyniadau croes? (O/N). Rhowch gymaint o fanylion â phosibl i gefnogi eich ateb.**

# Cwestiynau’r Ymgynghoriad

1. Ydych chi’n cytuno y dylai ein cynigion gynnwys cyfleusterau sy’n cyflawni’r gweithgareddau canlynol: llosgi a hylosgi gwastraff a dulliau eraill o adfer ynni o wastraff (gan gynnwys cynhyrchu tanwyddau)? (Y/N) Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.

2. A oes unrhyw dechnolegau na chyfeiriwyd atynt yn yr adran hon, ac na fyddai’r gweithgareddau a ddisgrifiwyd yn eu cynnwys, ac y teimlwch y dylai ein cynigion eu cynnwys? (Y/N) Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.

3. Ydych chi’n cytuno na ddylid cynnwys yn ein cynigion gyfleusterau sy’n cynhyrchu monomerau a pholymerau o wastraff y gellir eu defnyddio fel deunyddiau crai (ailgylchlu anfecanyddol neu ‘gemegol’) ar gyfer deunyddiau a fyddai’n aros yn yr economi gylchol?

4. Os ydych, sut ddylem ni drin cyfleusterau sy’n cynhyrchu tanwydd a pholymerau a monomerau i’w defnyddio fel deunyddiau crai? (Y/N) Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.

5. A oes gennych bryderon am ein safiad i beidio â defnyddio’r trothwy mewnbwn thermol 20MW ar gyfer cyfranogi yn ETS y DU? (Y/N) Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.

6. A ddylid ystyried trothwy arall ar gyfer bod yn rhan o ETS y DU (ee capasiti prosesu gwastraff) neu a fydd bod yn gymwys am statws HSE a USE yn ddigon i ddiogelu cyfleusterau llai? Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.

7. Ydych chi’n cytuno bod y trothwyon arfaethedig ar gyfer statws HSE a USE yn addas ar gyfer cyfleusterau llosgi gwastraff? (Y/N) Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.

8. Ydych chi’n cytuno ei bod yn annhebygol y bydd cyfleusterau llai’n cael eu datblygu i fod yn gymwys am statws HSE neu USE? (Y/N) Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.

9. Os ydych yn anghytuno â’r trothwyon arfaethedig ar gyfer statws HSE a USE, pa drothwyon eraill fyddai’n addas?

10. Ydych chi’n cytuno â’n safiad i gynnwys llosgi gwastraff peryglus a chlinigol yn ETS y DU? (Y/N) Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb gan ddisgrifio unrhyw bryderon sydd gennych.

11. Pa opsiynau datgarboneiddio fydd ar gael i losgwyr gwastraff peryglus a chlinigol a beth fydd yr amserlen (ee yn syth neu’n hirdymor)?

12. A fyddai’r dulliau monitro allyriadau a ddisgrifir yn yr adran ‘Monitro ac adrodd’ sydd ar gael i losgwyr anarbenigol hefyd ar gael i losgwyr gwastraff peryglus a chlinigol o’r un maint? (Y/N) Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.

13. Pe bai llosgi gwastraff peryglus neu glinigol yn cael ei eithrio o ETS y DU rhyw dydd, a oes risg bod mathau eraill o wastraff yn cael eu cam-labelu fel y naill neu’r llall i osgoi ETS y DU? (Y/N) Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.

14. Ydych chi’n cytuno y bydd targedau allyriadau HSE yn cymell llosgwyr gwastraff clinigol i ddatgarboneiddio? (Y/N) Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.

15. Ydych chi'n cytuno y bydd cwsmeriaid llosgwyr gwastraff clinigol yn gallu gweithredu i leihau cynnwys ffosil y gwastraff a gynhyrchir ganddynt a chyrraedd eu targedau lleihau gwastraff? (Y/N) Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.

16. Ydych chi'n cytuno mai'r dull arfaethedig, o ychwanegu lwfansau cyfwerth ag allyriadau mewn cwmpas ym mhob taflwybr allyriadau sy'n gysylltiedig â'r CBDP, yw'r dull priodol o addasu'r cap i sicrhau'r lleihad mewn allyriadau i gwrdd â thargedau hinsawdd? (Y/N). Eglurwch eich rhesymau gan gynnwys drwy gynnig dull arall lle bo hynny'n briodol.

17. Ydych chi'n cytuno â'r dull arfaethedig o addasu'r cap i gyfrif am gynnwys allyriadau o'r sector llosgi gwastraff yn y cynllun? Y/N). Eglurwch eich rhesymau gan gyfeirio at unrhyw ddulliau eraill neu ffynonellau tystiolaeth eraill, fel effaith polisïau ar y gyfran ffosil o allyriadau.

18. Beth fyddech yn disgwyl i effaith y dull arfaethedig o addasu'r cap fod ar gyfranogwyr yn y sector a / neu ar farchnad ehangach ETS y DU? Eglurwch eich rhesymau os gwelwch yn dda.

19. Ydych chi'n cytuno ei bod yn ymarferol bod gofynion rheoleiddio presennol y cynllun, fel y cylch cydymffurfio, gofynion trwydded, gofynion cynllun monitro, a dirwyon, yn cael eu cyflwyno ar gyfer sector gwastraff? (Y/N) Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.

20. Ydych chi'n cytuno mai cyfnod MRV yn unig yw'r ffordd orau i gwrdd ag amcanion y cyfnod pontio ar gyfer y sector hwn? Y/N). Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.

21. Sut y bydd gweithredwyr a chwsmeriaid yn defnyddio unrhyw ddata o'r cyfnod MRV yn unig?

22. I gwsmeriaid a gweithredwyr, ydych chi'n cytuno y bydd gwybod beth fydd y costau disgwyliedig yn gynt na gweithredu'r cynllun yn llawn yn creu cymhelliad cynnar i leihau gorfod talu'r pris carbon? Y/N). Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.

23. Os bydd y cyfnod MRV yn orfodol (Opsiwn 1): Ydych chi'n cytuno y dylai cyfleusterau llosgi gwastraff orfod cwrdd â'r un gofynion MRV yn 2026-28 ag o 2028 ymlaen (ee adrodd allyriadau ar gyfer eu holl unedau hylosgi ar y safle)?

24. Os yw'r cyfnod MRV yn orfodol (Opsiwn 1): A oes gennych unrhyw bryderon y byddai'n rhaid i bob cyfleuster llosgi gwastraff gwrdd â gofynion MRV, cyn ymgeisio am statws HSE/USE?

25. Os yw'r cyfnod MRV yn wirfoddol (Opsiwn 2): Pa mor debygol yn eich barn chi yw y byddai gweithredwyr yn monitro eu hallyriadau ffosil?

26. Os yw'r cyfnod MRV yn wirfoddol (Opsiwn 2): Pa mor debygol yn eich barn chi yw y byddai gweithredwyr yn:

a) rhannu eu hallyriadau â chwsmeriaid fel eu bod yn deall eu costau posibl yn y dyfodol yn well, a

b) rhannu eu hallyriadau ag Awdurdod ETS y DU i oleuo penderfyniadau ar y cap ac fel tystiolaeth o fod yn gymwys am statws HSE neu USE?

27. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y cyfnod pontio MRV yn unig, ac ar y naill opsiwn neu'r llall?

28. Ydych chi'n cytuno y dylid mabwysiadu dull haenau ar gyfer gofynion monitro ac adrodd o dan ETS y DU? Y/N). Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.

29. Ydych chi'n meddwl y byddai Opsiwn 1 yn addas ar gyfer cyfleusterau llosgi gwastraff? Y/N). Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.

30. Ydych chi'n cytuno a'n hamcan-asesiad yn Ffigwr 4 o sut y gallai'r dulliau monitro allyriadau sydd ar gael i'r sector gyfateb i'r ystodau ansicrwydd ar gyfer pob haen yn Opsiwn 1? (Y/N). Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.

31. Ydych chi'n meddwl y byddai Opsiwn 2 yn addas ar gyfer cyfleusterau llosgi gwastraff? Y/N). Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.

32. Pa ddull (ee gwladol, rhanbarthol neu benodol i'r gosodiad) y dylid ei ddefnyddio i ddatblygu ffactorau cyfrifo diofyn ar gyfer gosodiadau llai? Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.

33. Ar ba agweddau ar y polisi y dylem ni gynhyrchu canllawiau, i weithredwyr, eu cwsmeriaid neu'r ddau? Eglurwch eich rhesymau os gwelwch yn dda.

34. Sut ddylem ni geisio profi unrhyw ganllawiau naill ai i weithredwyr, eu cwsmeriaid neu'r ddau? Eglurwch eich rhesymau os gwelwch yn dda.

35. I ba amserlen y dylem ni gynhyrchu canllawiau ar wahanol agweddau ar y polisi, ac i wahanol gynulleidfaoedd? Eglurwch eich rhesymau os gwelwch yn dda.

36. Ydych chi'n disgwyl i ffioedd tipio am losgi gwastraff fynd yn ddrytach na thirlenwi neu allforio o ganlyniad i ehangu ETS y DU? Ydy'r disgwyl hwn yr un fath ar gyfer pob math o ddeunydd a rhanbarth? Rhowch dystiolaeth i gefnogi eich ateb os gwelwch yn dda.

37. Pe bai ffioedd tipio am losgi gwastraff yn dod yn gymharol ddrytach, gyda ffactorau nad ydynt yn ymwneud â phrisiau yn cael eu hystyried wrth wneud penderfynaidau rheoli a gwaredu gwastraff, pa mor fawr yw'r risg y byddai gwastraff yn cael ei arallgyfeirio i lawr yr hierarchaeth i gael ei allforio neu dirlenwi?

38. O ystyried y manteision a'r trafferthion posibl a allai godi, ydych chi'n meddwl y dylid ystyried ehangu ETS y DU i gynnwys tirlenwi er mwyn gwarchod y risg o arallgyfeirio gwastraff o gael ei losgi i gael ei dirlenwi? (Y/N). Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.

39. Ydych chi'n meddwl y dylid ystyried opsiynau eraill ar gyfer rheoli'r risg o dirlenwi? Os ydych, rhowch fanylion pellach am ba opsiynau a pham.

40. Ydych chi'n meddwl y byddai unrhyw un o'r opsiynau uchod i osgoi'r risg o dirlenwi'n arwain at ganlyniadau anfwriadol? (Y/N). Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.

41. Beth fyddai'r ffordd fwyaf effeithiol o liniaru'r risg o arallgyfeirio gwastraff o gael ei losgi i gael ei allforio fel RDF/SRF? Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.

42. Ydych chi'n meddwl y byddai cyfyngu ar nifer y trwyddedau / caniatadau allforio RDF/SRF a roddir yn ffordd effeithiol o leihau'r risg o arallgyfeirio gwastraff o gael ei losgi i gael ei allforio dramor? (Y/N). Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.

43. Ydych chi’n meddwl y byddai codi tâl drwydded / caniatâd ar allforion RDF/SRF yn ffordd effeithiol o leihau’r risg o arallgyfeirio gwastraff o gael ei losgi i gael ei allforio dramor? (Y/N). Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.

44. Ai tâl penodedig neu amrywiol fyddai fwyaf effeithiol i reoli’r risg yma? Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.

45. Pe byddem yn symud ymlaen i ddatblygu tâl amrywiol:

a) A fyddai’n ddigonol bod y tâl yn adlewyrchu pris carbon ETS y DU?

b) A fyddai angen, wrth gyfrifo’r tâl, ystyried y pris carbon (os byddai un) yn y wlad y byddai allforion RDF/SRF yn cael eu hanfon iddi?

c) Pa mor angen fyddai angen diweddaru taliadau amrywiol?

46. Ydych chi’n meddwl y dylid ystyried opsiynau eraill ar gyfer rheoli’r risg o allforio RDF/SRF? (Y/N). Os ydych, rhowch fanylion pellach am ba opsiynau a pham.

47. Ydych chi’n meddwl y gallai unrhyw opsiwn i liniaru’r risg o allforio RDF/SRF arwain at ganlyniadau anfwriadol? (Y/N). Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.

48. Ydych chi’n cytuno â’r llwybrau datgarboneiddio uchod ar gyfer cyfleusterau llosgi gwastraff? (Y/N). Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb, gan gynnwys gwybodaeth am allu awdurdodau lleol a / neu weithredwyr llosgi gwastraff i ddilyn y llwybrau datgarboneiddio hyn. Rhowch hefyd unrhyw wybodaeth am weithgareddau neu lwybrau datgarboneiddio eraill sydd ar gael i awdurdodau lleol a / neu weithredwyr llosgi gwastraff.

49. A oes gennych unrhyw dystiolaeth o’r costau, arbedion ac elw posibl a allai gael ei gynhyrchu o dechnoleg datgarboneiddio fel CCS a rhwydweithiau gwres? (O/N). Os oes, rhowch fanylion pellach os gwelwch yn dda. Byddem yn croesawu’n enwedig unrhyw dystiolaeth ar gyfer cyfnod cytundebol cyfan a / neu oes y cyfleuster.

50. A oes gennych unrhyw sylwadau ar arbedion cost o dechnoleg datgarboneiddio fel CCS a rhwydweithiau gwres ac a fydd y rhain yn cael eu pasio’n ôl i gwsmeriaid, gan gynnwys awdurdodau lleol?

51. Ydych chi’n cytuno bod angen canllawiau ar ddatgarboneiddio i awdurdodau lleol a gweithredwyr llosgi gwastraff? (Y/N). Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb, gan gynnwys unrhyw wybodaeth am y math, ffurf, a chynnwys y canllawiau sydd eu hangen.

52. Ar wahân i’r dulliau a restrir uchod, a oes unrhyw ddull(iau) eraill y byddech yn eu hargymell i gynorthwyo awdurdodau lleol i ddatgarboneiddio? (O/N) Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb, gan gynnwys unrhyw wybodaeth am y math o ddull(iau) cymorth sy’n cael eu hargymell a’r math o ddeunyddiau a allai ddisgyn y tu allan i gwmpas y dulliau cymorth a gynigir uchod.

53. Ydych chi’n meddwl y byddai samplo (ee gofynion MRF) yn ffordd effeithiol o gynorthwyo pasio costau ymlaen yn gywir o weithredwyr EfW i gwsmeriaid? (Y/N). Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.

54. Ydych chi'n meddwl bod y technegau dadansoddi samplau a ddisgrifir (ee didol â llaw, hydoddi dethol, a charbon-14) yn cynorthwyo'n effeithiol i basio costau ymlaen yn gywir? (Y/N). Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.

55. Ydych chi'n meddwl y dylid ystyried dulliau eraill ar wahân i samplo, gan gynnwys ffactorau cyfrifo diofyn? (Y/N). Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.

56. Ydych chi'n meddwl y byddai dull graddol o ddatblygu'r dull pasio costau ymlaen yn ffordd ymarferol o symud ymlaen? (Y/N). Rhowch fanylion pellach i gefnogi eich ateb.

57. Ydych chi'n ystyried y bydd cymhwyso ETS y DU i losgi gwastraff yn arwain at unrhyw effeithiau i grwpiau gyda nodweddion a warchodir, o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010? Ydych chi'n meddwl bod unrhyw ystyriaethau cydraddoldeb eraill? Ydych chi'n ystyried y gellid dylunio unrhyw agwedd ar ehangu ETS y DU i gynnwys llosgi gwastraff i hyrwyddo cyfle cyfartal a / neu feithrin cysylltiadau da? Eglurwch eich ymateb gan roi tystiolaeth os gallwch.

58. Ydych chi'n cytuno y dylid defnyddio ETS y DU i gefnogi rhag-brynu / rhag-werthu gwres drwy'r ETS? (Y/N). Rhowch eich rhesymau ynghyd â thystiolaeth i gefnogi eich barn os gwelwch yn dda.

59. A oes gennych farn am ba ddull cymhelliad (ee lwfansau am ddim, tynnu nifer o lwfansau allan o rwymedigaeth ETS y DU, ac ati) fyddai'n gweithio orau i annog allforio a defnyddio gwres?O/N). Rhowch gymaint o fanylion â phosibl i gefnogi eich ateb.

60. Ydych chi'n meddwl bod angen i polisïau sy'n cymell rhag-brynu / rhag-werthu gwres fod yn berthnasol i wres gwastraff neu dros ben yn ogystal â gwres a gynhyrchir i'r pwrpas o'i allforio? (Y/N). Rhowch gymaint o fanylion â phosibl i gefnogi eich ateb.

61. Pe bai cymhelliad yn cael ei roi, sut ddylid penderfynu ar lefel y cymhelliad, ee ydych chi'n meddwl y dylai fod yn gysylltiedig ag allyriadau sy'n cael eu gwrthbwyso drwy allforio gwres, maint yr allyriadau a fyddai'n gysylltiedig â chynhyrchu gwres, ac ati? (Y/N). Rhowch gymaint o fanylion â phosibl i gefnogi eich ateb.

62. A oes gennych farn am a allai rhoi cymhelliad i rag-brynu / rhag-werthu gwres drwy ETS y DU gael unrhyw ganlyniadau croes? O/N). Rhowch gymaint o fanylion â phosibl i gefnogi eich ateb.

# Y camau nesaf

Bydd yr atebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu defnyddio i ddatblygu'r penderfyniadau polisi terfynol ar gyfer gweithredu.

Bydd yr ymgynghoriad ar agor am 8 wythnos cyn cau. Bydd yr Awdurdod yna'n gweithio drwy'r ymatebion gyda'r nod o gyhoeddi Ymateb yr Awdurdod maes o law a chyhoeddi'r manylion gweithredu cyn y cyfnod pontio MRV yn unig.

Mae’r ymgynghoriad hwn ar gael yn: www.gov.uk/government/consultations/uk-emissions-trading-scheme-scope-expansion-waste

Os oes angen fersiwn o’r ddogfen hon mewn fformat mwy hygyrch arnoch, e-bostiwch alt.formats@energysecurity.gov.uk. Cofiwch ddweud pa fformat sydd ei angen arnoch. Bydd yn ein helpu os dywedwch ba dechnoleg gynorthwyol a ddefnyddiwch.